RHIFYN COFFA DAVIS, CASTELLHYWEL.

CYFRES LLANBEDR | HYDREF, 1927 | CYF. 27. RHIF 10.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd — Y Parch. T. Oswald Williams

— Cynnwys. —

Erthyglau gan—
Dan Jenkins, Ysw.
Y Parch. W. Edwards, M.A. Dyfnallt.
J. J. Evans, Ysw., M.A.
Y Parch. J. Park Davies, M,A., B.D. Sarnicol.
G. Eyre Evans, Ysw.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

Pris Chwecheiniog.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Y Geiriadur Beiblaidd.

Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo yn gyflawn mewn Dwy Gyfrol hardd. . . .

Dwy Gyfrol—Canvas Cloth, Gilt Lettered, £2/2/- y Set.
Dwy Gyfrol—Quarter Levant Morocco, Gilt Lettered, £2/10/- y Set.

I'w cael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

ARGRAFFWAITH.

Anfonwch eich archebion am ARGRAFFU o bob math i SWYDDFA'R "YMOFYNNYDD," LLANDYSSUL. Gwaith glan, destlus a chywir gyda'r dyfeisiadau peiriannol diweddaraf, ac am brisiau rhesymol. Sylw personol i bob ymholiad.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.



Da Davis Minn
of Llwynrhydowen

(1745—1827).

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1927-10_27_10

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. HYDREF, 1927. CYF. XXVII. RHIF 10.

Braslun o Fywyd Davis.

YN 1896 daeth allan o Wasg Gwrecsam lyfr bychan "Cartrefi Cymru" gan y diweddar Gymro gwladgar, O. M. Edwards. Ceir ynddo ddisgrifiad o'r cartrefi a'r preswylwyr gynt, er engraifft,—Dolwar Fach (Anne Griffiths), Gerddi Bluog (Edmwnd Prys), Pantycelyn (William Williams).

Carwn weld llyfr tebyg am gartrefi Sir Aberteifi. Beth am—Pwllffein (Amnon), Cilfforch (Davies Pant-teg), Brogynin (Dafydd ap Gwilym), Cynhawdre (Ieuan Brydydd Hir), Penwenallt (Theophilus Evans), a llawer eraill yn deilwng o'u cofio.

Yn eu plith daw Goitre-isaf ymhlwyf Llangybi—man geni ein gwron—David Davis, yn un o'r blynyddau 1743-44-45. (Yn nyddiadur Timothy Davis, ei fab M.S. 5488 B, July 3rd., 1827: "Afternoon of the 3rd breathed his last in the 83rd year of his age." Extract from Letter of Davies dated Feb. 1825: "I have completed my 80 year on the 14th of this month."—GOL.)

Yr oedd ei rieni yn gefnog o amgylchiadau ac yn grefyddol eu hysbryd: yn aelodau gyda'r Annibynwyr* yn y Cilgwyn dan weinidogaeth Philip Pugh. Codwyd y plant yn grefyddol. Derbyniodd Dafydd argraffiadau crefyddol yn ieuanc a theimlai ei rieni awydd ei weld yn codi yn ddyn defnyddiol mewn byd ac eglwys. Rhoddwyd iddo yr addysg oreu o fewn cyrraedd yr adeg honno.

Bu gyda David Jones yn Llanybydder ac yna gyda'r Parch. T. Lloyd offeiriad Llangeler. Wedi hynny aeth at ei ewythr y Parch. Joshua Thomas—i Lanllieni, lle bu am flwyddyn a hanner.

---

*Oni buasai'n well dywedyd Presbyteriaid am fod y gynulleidfa'n gymysg.—GOL.

Oddiyno daeth yn ei ol i Gymru—ac i'r Ysgol neu Academi Caerfyrddin dan Dr. Jenkins. Aeth o'r Ysgol i'r Athrofa.

Profodd ei hun yn ysgolor disglair iawn yn ogystal ag yn ddyn duwiol—yr oedd yn ddyn o ddifri gyda phob da. Dechreuodd bregethu ac yntau yn y Coleg.

Wedi pedair blynedd daeth gwahoddiad iddo o Giliau a Llwynrhydowen i fod yn gyd-weinidog a'r Parch. D. Lloyd. Cafodd yr un pryd gynnyg ar Llanedi a mwy o gyflog ond glynodd wrth ei hen Sir, a'i chyfraniadau prin.

Dechreuodd ei lafur fel gweinidog yn 1769 (neu ddiwedd 1768). Lletyai yn Voelallt Ciliau.

Yn 1775 ymbriododd a Miss Anne Evans*. Aethant i fyw i Plasbach, a bu iddynt naw o blant. Wedi ei urddo yn y Llwyn symudodd i Gastell Hywel—ym mhlwyf Llandysul ac oddiar hynny nid oes eisieu son am y *Davis*—ond yr " hen Gastellhywel."

Yn union deg agorodd ysgol Glasur neu Ramadeg, a daeth i gael ei hystyried yn un o'r enwocaf yn y Dywysogaeth. (Gyda llaw a rhwng cronfachau,—mae Sir Aberteifi yn ddyledus iawn i Ysgolion cynt yr hen Sir, ac i weinidogion y darn Undodaidd o'r Sir,—Cribin, Pontsian, Llandysul, etc, ac er holl fanteision heddyw, mae eisieu rhyw Domos Tomos a Gwilym Marles eto.)

A mi yn son am ysgol, mae yn gytrawiad cymwys yn y ddau ddathlu gymer le ymron yr un pryd—Dathlu canmlwydd marw Davis Castellhywel, heddyw, a dathlu canmlwyddiant geni Coleg Dewi Sant yn y mis nesa. Nid allaf lai na chysylltu y ddau.

Dywedir i Dr. Horsley, Esgob Tyddewi wrthod urddo i'r swydd offeiriadol rai o Ysgol Castellhywel. Bryd hynny y gwelwyd angen am Goleg Dewi Sant ac wedi marw Davis y codwyd ef fel ysgol baratoawl, ond erbyn hyn yn un o sefydliadau addysgol blaenaf yr Eglwys yng Nghymru.

---

* Wyres Scweier Davies, Plasbach, Cilie. Ei thad oedd John Evans, Llysfan, ger Llanwnen. Mewn hen Feibl caf i John Evans ymbriodi a Margaret Davies, merch Davies, Siopwr New Inn a Three Mariners, Laugharne, Caerfyrddin. Ganwyd ar Ion. 9, 1747, yn Laugharne. Llawysgrif R.J.J.—Gol.

Timothy *Jacob* oedd enw ei dad. Does gennyf mo enw ei fam*. Yr wyf yn cael lle i gasglu taw un o "Gochiaid Pencarreg" oedd—pobl rhwng Cellan a Llanybydder.

O ran ei berson ysgrifenna'r Parch. Arthur Mursell fel hyn :—"Ymddengys fod Mr. Davis yn rhyw ryfeddod o ddyn, ac o faintioli cawraidd. Ofnai y cymydogion roddi benthyg eu *ponies* iddo rhag iddo dorri eu cefnau ; yr oedd ei deiliwr yn arfer siarad am dano ar ol ei farw gyda math o barch ofnadwy."

Wedi oes lafurus fel gweinidog ac ysgolfeistr, bu farw ar y trydydd o Orffennaf, 1827, a chladdwyd ef ym Mynwent Llanwenog, am nad oedd fynwent yn y Llwyn hyd 1834.

DAN JENKINS.

Trem ar Ddavis.

Y MAE gobaith i genedl sy'n dechreu cofio am ei chymwynaswyr hi. Y rheol gyffredin yw bod cenedl yn lladd ei phroffwydi, a phlant y genedl yn eu claddu ym medd angof. Clywsom ddywedyd gan y rhai gynt fod un oes yn croeshoelio'r dynion goreu, a'r oes nesaf yn gwneud seintiau o honynt. Hwyrach mai dyna'r ddwy ffordd sydd gan wlad i ddangos ei pharch tuag at ei noddwyr a'i phroffwydi. Tybed a oes dyddiau gwell yn gwawrio !

Ymhlith y rhai y mae'n ddyletswydd arnom eu cofio ceir yr "Hen Ddavis Castellhywel." Os ydyw dyn y sydd wedi byw er mwyn ei bobl yn haeddu cael ei gofio a'i barchu ganddynt, pwy a omedd i hwn le yn ein meddwl ac yn ein calonnau ? Yr oedd efe yn caru ein cenedl ni, a rhoddodd i bobl y wlad o lafur ei enaid a'i feddwl. Gweithiodd tra yr ydoedd hi yn ddydd.

Dyn amryddawn ydoedd : ysgolhaig, ysgolfeistr, bardd, pregethwr a dyn. O fwriad y dechreuwyd y frawddeg olaf gyda'r gair dyn, gan orffen hefyd gyda'r un gair. Doniau yn perthyn i'r

---

*Yn ol Printed Pedigree Davis of Evesham, N.L.W., enw ei fam oedd Elinor.—GOL.

dyn ydoedd y pethau ereill i gyd. Cafodd gan ei Dduw a'i rieni ddynoliaeth gref a da ; ychwanegodd at yr hyn a gafodd y talentau gwerthfawr ereill. I'r hwn sydd ganddo y rhoddir iddo.

Nid yw pob un yn gymaint o ddyn ag ydyw o bregethwr. Y mae rhai yn fwy o ysgolheigion nag ydynt o ddynion. Yn fynych a'r dyn i'w golli yn y pethau a berthyn iddo. Melys ydyw cofio bod Davis, Castellhywel wedi cadw ei ddynoliaeth a'i dalentau.

Pa bryd y cawn ni gan Gymro lyfr yn dangos maint dyled Cymru i ysgolfeistriaid y dyddiau gynt* ? Yr ydym wedi clywed cymaint am ddyled Cymru i'w phulpud nes peri inni anghofio bod eraill wedi gwasanaethu eu gwlad yn ogystal. Bu cewri, ac y mae cewri eto yn credu mae eu gwaith hwy ydyw achub eneidiau pobl. Pob bendith arnynt ; rheded eu pregethau mewn goruchafiaeth gref. Ond ni thal i ni anghofio'r lleill sydd yn credu mewn achub meddyliau dynion hefyd. Y mae parch yn ddyledus i'r rhai a wna ein hatgofio am ein perthynas a'r nef. Onid oes hefyd barch yn ddyledus i'r dynion a wna i ni gofio am ein perthynas a phethau o'n hamgylch ?

Dyn llawn oedd Davis, Castellhywel, a chredai mewn bywyd llawn,—bywyd yn y corff, yn y meddwl, ac yn yr enaid. Nid oedd culni yn agos ato. Credai fod modd i ddyn achub ei feddwl heb ddamnio'i enaid. Credai fod dyn yn greadur rhydd—yn rhydd i feddwl drosto'i hun ; yn rhydd i beidio a meddwl yr un peth a phawb arall ; yn rhydd i geisio'r goleuni, i fyw ac i ymhyfrydu ynddo. Mewn pulpud ac mewn ysgol gwnaeth ei oreu i wasgar goleuni ger bron dynion. Enaid iachus ; meddwl diwylliedig ; barn onest ; cariad at y pur a'r da : dyna bethau mawr ei fywyd.

Am ei fedr fel pregethwr a bardd caiff arall draethu ei lên ; a da yw cael gan amryw edrych arno o wahanol gyfeiriadau, gan mor amryddawn oedd. Bydd melys cofio am dano yn fachgennyn yn y Goetref Isaf ; yn gloewi'i arfau yng Nghaerfyrddin ; yn pregethu yn Nyffryn Aeron ac yn Rhydowen ; yn cadw ysgol yng Nghastellhywel. Melys hefyd yw cofio na chredodd ei fod wedi dysgu'r cyfan a oedd i'w wybod yng Nghaerfyrddin ; ac na chredodd mai nefoedd oedd Dyffryn Aeron er prydferthed ydyw. Nid oedd y Coleg iddo ond gris i goleg uwch ; ac nid oedd Dyffryn Aeron iddo ond gardd arweiniai i erddi prydferth eraill—gerddi gwirionedd, llenyddiaeth a chrefydd. Credai yn ei Dduw ; credai yn y dynion oedd o'i amgylch hefyd. Nid rhyfedd felly iddo gyfieithu gwaith Scougal, "Bywyd Duw yn enaid dyn." Yr oedd ei gydymdeimlad

---

* Bu Davis yn cadw ysgol am ddeng mlynedd ar hugain o leiaf a cheir enwau rhyw gant o'i ddisgyblion yn rhestr tanysgrifwyr Telyn Dewi.—Gol.

gyda'r gwan a'r cystuddiedig, ac am hynny cyfieithodd "Gri Carcharorion dan farn Marwolaeth." Credai a'i holl enaid ym mawredd dyn, ac ocheneidiai wrth feddwl am y miloedd oedd yn mynd i'w beddau heb gael cyfle i ddatblygu ac i feithrin y ddawn anfarwol oedd ynddynt. Dyna paham y bu mor hir uwch ben "Gray's Elegy"; oherwydd dyna alargan y tlawd. Anodd oedd i Ddavis Castellhywel gymodi ag athrawiaeth y dydd, yn enwedig athrawiaeth dydd Sul, gan fod honno yn tystio mai creadur bach, gwan, diwerth oedd dyn, a phopeth o'i amgylch yn tystio mai creadur mawr oedd, ac heb gael cyfle i ddangos ei fawredd.

Credai hefyd fod modd byw a chanu a hynny mewn oes oedd yn rhy barod i farnu crefydd a gwerth dyn wrth sŵn a swm ei ocheneidiau. Mynnodd, fel Dafydd frenin, delyn iddo ei hun; ac os nad yw "Telyn Dafydd" yr ail felysed ei thannau ag eiddo'r Salmydd, canodd yr hyn oedd yn ei galon ac yn ei feddwl.

Dywedodd rhywun, (Ashton onide ?), fod dylanwad Coleridge a Chowper ar feddyliau Davis Castellhywel. Nid wyf yn ameu hynny, ac nid wyf yn rhyfeddu ychwaith. Hoffai'r cyntaf sangu ar bennau mynyddoedd y goruwch-naturiol, a gwelai Cowper mai "Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior yn dwyn ei waith i ben," gan fod rhan o'i ffyrdd ef yn y moroedd mawr y ceir ei ystafelloedd ynddynt hefyd. Meddwl rhydd oedd gan y cyntaf, ac nid ofnodd ddilyn llwybrau athroniaeth; tra'r oedd yr ail yn caru son am bethau agos ato gan ddangos eu gwerth; ac ni anghofiodd gydymdeimlo a'r tlawd a'r gwan. Chwythai awel dros y wlad gan ddeffro bywyd newydd. Gyda'r awel daeth syniadau newydd am werth ac am fawredd dyn. Cafodd y dyn cyffredin le ym meddwl a chalon beirdd yr oes. Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno, a daeth heibio i Ddyffryn Aeron. A fu yno gyffro ymhlith y meirwon ? Yr anadl sydd yn bywhau. A fu yno gydymdeimlad a'r anwybodus a'r gwan ? Y mae'r awel wedi deffro rhywun.

"Nac edryched pendefigion
Beilch a gwychion gyda gwawd."

ar bobl dlawd y wlad, oherwydd yn y graian y gorwedd

"Dwylaw all'sai lywio teyrnas,
A theyrnwialen ar ryw thrôn,
Dawn a dwylaw diwniai delyn
I lesmeiriol dyner dôn."

Soniodd Ben Bowen "ormod am Dduw a thragwyddoldeb," meddai un o'i feirniaid; soniodd y Parch. Dafydd Davis ormod am Dduw a mawredd dyn, meddai rhai o'i feirniaid ef. Cofiaf ddarllen ysgrif Tecwyn ar "Ddysg ym Mhulpud Cymru" ac am ei eiriau, "i'r graddau yr aiff y genedl ymlaen mewn gwir wybodaeth a diwylliant fe gynhydda'i gallu i fedru gwahaniaethu rhwng gwacter a gwychter." Ymdrechodd Davis Castellhywel, roi i'r wlad wybodaeth a diwylliant gyda chrefydd. Ni fu ei lafur yn ofer. "Pa ddiben cael Allorau Aur ac Offeiriaid Pren?" (chwedl Tecwyn eto). Ni raid i neb ofni bod Davis Castellhywel ymhlith yr "Offeiriaid pren."

Caerau. W. EDWARDS.

Davis Castellhywel: Prydydd a Chyfieithydd.

YR oedd Edward Rhisiart, Ystradmeurig yn ddeg-ar-hugain; Pantycelyn yn wyth-ar-hugain; Goronwy Owain yn dair-ar-hugain; Ieuan Brydydd Hir yn bedair-ar-ddeg a Thwm o'r Nant yn chwech oed pan aned Davis Castellhywel.

Dyna'r ser sefydlog a'r ser disperod yn y cysawdiau llenyddol yng Nghymru canol a diwedd y ddeunawfed ganrif. Gellir yn gymharol hawdd daro ar y cylch y perthynai pob un ohonynt iddo.

Plentyn y Traddodiad Clasur oedd Edwart Rhisiart. Clasurol oedd teithi'i destunau ac awyrgylch ei ganeuon, eithr etifedd y canu gwerin yng Nghymru oedd ei fesur "Y Tri Thrawiad." Y mae tinc y gynghanedd a'r penillion telyn ynddo.

Pantycelyn oedd bardd ysbrydol y Diwygiad. Ef oedd creawdydd yr emyn yn ein llenyddiaeth, a'r un yw barn y genedl o hyd, "Wil biau'r Emyn."

Goronwy oedd canolbwnc y Dadeni Llenyddol. Ef oedd pensaer celfydd yr Adfywiad Clasur. Gwelwyd drwyddo fesur o ogoniant y cywydd cain dros dymor byr.

Daeth y diwylliant cartref—y mudiad gwerin mewn llenyddiaeth i'w benllanw yn athrylith Twm o'r Nant. Ei fyd cynefin ef oedd y penillion telyn, y faled a'r anterliwt. Ei ysbrydoliaeth oedd gwrthryfel a diwygiad.

Ym mha le felly yr ymddengys Davis Castellhywel ymhlith y ser hyn? Yr ydym yn dal bod i'w farddoniaeth gyfathrach a phob un o'r goleuadau mawrion hyn.

Y gallu mwyaf yn llenyddiaeth Ceredigion yng nghanol y ddeunawfed ganrif oedd Edward Rhisiart. Cyffelyb oedd ei ddylanwad ef â'r eiddo'r "Hen Ficer" yn Nyffryn Tywi a gwlad Myrddin. Cychwynnodd draddodiad llenyddol a'r traddodiad hwnnw oedd mewn grym pan ddaeth yr awen i gyrchu Davis at ei waith.

Ni fabwysiadodd Davis ddim o deithi barddoniaeth Edward Rhisiart. Ychydig neu ddim o ganu serch sydd yn ei gyfrol "Telyn Dewi". Ond yr oedd yn hoff ganddo fesur "Y Tri Thrawiad," a phraw ei fod yn gystal meistr arno ag Edward Rhisiart ei hun. Eithr nid o Edward Rhisiart y daeth ei ysbrydiaeth bennaf.

Nid oedd Davis yn un o aelodau Cylch y Dadeni Clasur. Ni wyddom a oedd hyd yn oed yn adnabod Ieuan Brydydd Hir—un o blant yr un Sir ag yntau, ac un o gymwynaswyr pennaf y Dadeni. Y mesur cywydd oedd mesur breiniol y Dadeni. Nid oes gywydd o eiddo Davis ar ei ol, ond ceir cyffyrddiad anffaeledig y gwr medrus ar y gynghanedd yn ei englynion campus i "Cwymp Ffynnon Bedr."

"Bu frwd haf, bu hyfryd des
Mawrhydri yma a rhodres."

"Och! o'r gell mwy ni cheir gwin,
Na chog o fewn ei chegin."

"Yno'n awr 'does delynorion—na thant
Na thiwn, na chantorion
Hoff boddus, na phibyddion,
Na mwynder y dyner dôn."

"I'r llwch aeth pan daeth ei dydd :—a darfu
Ei dirfawr lawenydd;
Y dyllhuan fudan fydd
Yn gori 'n ei magwyrydd."

Cymharer hyn oll a llinellau clasurol Ieuan Brydydd Hir,—

"Y llwybrau gynt lle bu'r gan
Yn lleoedd y dyllhuan."

"Drain ac ysgall mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd ;"

Neu a'r llinellau,—

"Lle bu bonedd Gwynedd gant
Adar nos a deyrnasant."

Cana drasiedi yr hen fagwyrydd fel y beirdd clasur,—

"Glesni, du oerni daw arnoch ;—galar
Ac alaeth red trwoch ;
Ac wylo wnewch pan gweloch
Feini'i mur yn gafnau moch."

"Troir ei chain lydain aelwydau—'n erddi,
A gwyrddion weirgloddiau ;
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau."

Canodd ei englynion meistrolgar yn y cywair lleddf. Hwnnw oedd ei gywair mwyaf cynefin. Myfyriai lawer ar gwymp gogoniant hen fagwyrydd ac ar freuder a byrder bywyd

"Holl froydd, bronnydd a bryniau—daear,
A'u dewis wych dyrau
A'n ddiddym, ar fyr ddyddiau
Fel breuddwydion gweigion gau."

Atgofia ni yn yr englynion fod ysbryd y Dadeni wedi cyffwrdd ei awen. Gwir nad oes yn aros ar ei ol ddim o hafal gorchest Goronwy, eithr o bell ef a welodd yr un llewych a Goronwy.

Yr oedd dylanwad y Diwygiad Mawr yn canoli yn Llangeithio yn nyddiau canol oed Davis. Yr emyn oedd telyneg y Diwygiad. Yr oedd y bardd o deimladau crefyddol dwfn, a thrawodd yntau dant y profiad crefyddol didwyll yn ei emynau. Y mae ei emynau'n llawn meddylgarwch a gwirionedd moesol, ffydd ac ymddiriedaeth yn Nuw. Nid oes ynddynt ddim o'r dinc delynegol oedd ym Mhantycelyn. Anwylyd oedd Crist i Bantycelyn, Athro ac Arglwydd ydoedd i Ddavis ; yr oedd storm ym mhrofiad Pantycelyn

a rheswm ym mhrofiad Davis; credai Pantycelyn ei ysbrydoli gan yr Ysbryd Glan: yr oedd ffydd Davis yng ngreddfau yr enaid iach. Canodd y ddau orfoledd y bywyd concwerol ar adfyd, poen ac angau. Yr Ysbryd Glan oedd ffynhonnell holl ganu crefyddol Pantycelyn: ffydd yn nhrefn Duw oedd wrth wraidd canu crefyddol Davis.

Prin y mae ei emynau yn ganadwy. Y mae llawer o'i linellau'n gloff, y diffyg yma yn y dinc delynegol yw eu gwendid pennaf, eithr fel datganiad didwyll o'i feddyliau a'i brofiadau dwfn, nid ydynt yn ail i waith rhai o emynwyr y Diwygiad.

Fel un a fu byw trwy gydol ei oes ym mysg y werin, gwyddai'n dda am y diwylliant cartref oedd yno. Yn ei amser ef, yr oedd y mudiad gwerin mewn llenyddiaeth yn ffynnu yn y tir. Er cymaint oedd pwerau Puritaniaeth a'r Diwygiad Mawr, achubwyd yn wyrthiol y gân werin, y faled, y penillion telyn a'r triban rhag cael eu llwyr ddileu.

Teimlodd y bardd o Gastellhywel yr awel yn ei waed yn ei ganeuon "Y Feinir Lon," "Can Sapho," "Hen Wr a Hen Wraig" yn son am y cof am ieuenctid llon

"A'i dirion anhwylderau."

Nid diystyr yn ei olwg oedd canu ar y Mesur Triban. Yn hyn i gyd yr oedd yn deimladwy i awyrgylch y mudiad gwerin.

Cyfathrachwr i Dr. Richard Price, Iolo Morgannwg, Thomas Roberts, Llwynhudol, Glanygors a Tomos Glyn Cothi oedd Davis o ran ei olygiadau gwleidyddol a chymdeithasol. Ef yn wir, a blannodd hadau'r Chwyldro yn Ffrainc yn y parth yma o Geredigion. Ei blant ef yn y ffydd newydd oedd Tomos Glyn Cothi, Gwilym Marles ac ereill. Clywir acen ei argyhoeddiad parthed rhyfel yn ei "Englynion i'r Cleddyf,"—

"Dieflyg bryfyn diflas
O dro agwedd y neidr gas."

"Ti'r filain a wnait ryfeloedd—ffyrnig
Uffernol rhwng pobloedd,
I ddileu myrdd o luoedd,
Gwaith y diawl, nid gwaith Duw oedd."

. . . . . .

"Y cnaf difwynaf dau finiog—i'w wain
Y glyno'n ddiysgog;
A'i drwyn i'w gwd bo'r draenog
Heb waith yng nghred, byth ynghrog."

Yr oedd wedi cyhoeddi melltith ar gledd a rhyfel yn agos i gan mlynedd o flaen Emrys a'i

"Segurdod yw clod y cledd
A rhwd yw ei anrhydedd."

Yr oedd ganddo law i gychwyn Traddodiad Heddwch yng Nghymru—traddodiad a wrteithiwyd gan S.R., Hiraethog, a Daniel Owen—a'i dau begwn

"Mynd i'r nefoedd neu at y soldiwrs."

Ni feiddiai neb ond diwygiwr tanlli ganu gogoniant y Chwyldro yn Ffrainc megis y gwnaeth Davis. Erlidiwyd Glanygors a charcharwyd Tomos Glyn Cothi am feiddio ohonynt goleddu a chyhoeddi syniadau'r Chwyldro, eithr ni ddodes yr un ohonynt gorn anfeidrol ei ddolef chwyldro wrth ei fant yn fwy pendant na'r bardd o Gastellhywel. Ai tybed ddarfod i Forgan John Rhys a Glanygors wybod am bropaganda Davis? Pe gwybuasai ysbiwyr Lloegr am ei Englynion i'r Chwyldro prin y cawsai dangnef yng Nghastellhywel.

Bellach Ffrainc ar fainc a fydd,—yn hynod
Frenhines y gwledydd;
Hed myrddiynau'u rhwymau'n rhydd,
O dan ei mwyn adenydd.

Caiff caethion deillion o dwllwch,—olwg
Ar heulwen diddanwch;
Daw dyddiau llawn dedwyddwch
Ar waelion llwydion y llwch.

Ni nad un 'ffeiriad, na Pharo,—'n heulwen
Wiw lawen oleuo;
Llu'r Awstriaid ni all rwystro
Braich nerthol y freiniol fro.

Pob cribog c'ronog cryned,—pob trawsedd,
Pob treisiwr dychryned:
Boed drist anghrist, ac anghred
A dyrchafer cryfder cred.

Moled gwyr synnwyr y senedd,—roddai
Lawn ryddid heb orwedd,
I'w mwynhau gan bawb mewn hedd,
Heb wa'n rhwng gwreng a bonedd.

Cyfieithodd i'r Gymraeg emyn oedd yn datgan ei ffydd anffaeledig mewn heddwch a rhyddid, emyn yn gorffen,

Pob carchar tor, a chlwm a chlo :
I gaethion breintiau rhydd-did rho,
Yng'leda'r gwir,—maluria'r cledd—
Rho'r gair—cawn haf, a byd o hedd.

Ni fuasai arwriaeth ac aberth Dafydd Jones, Ffynnon Llywelyn yn bosibl yn 1868 onibai am ddysgeidiaeth Davis Castellhywel bedwar ugain mlynedd cynhynny. Magwyd to o wroniaid yn y fro hon a borthwyd ar fwyd cryf y diwygiwr o Gastellhywel.

Yn yr un cywair y canodd ei "Englynion i'r Offeiriaid a'u Ymprydiau Gwladol." Yr oedd hagrith yr ymprydiau hynny yn ffieiddbeth i ffrindiau rhyddid a chrefydd bur megis Glanygors, a Thomas Roberts, Llwynhudol.

Y Cyfieithydd.

Camp anodd yw cyfieithu. Ail oreu ydyw ar y goreu. Y mae'n debig i'r hyn a alwai'r Groegiaid yn ail ddull o forio—defnyddio rhwyfau yn lle hwyliau. Y mae gwaith bardd yn y gwreiddiol fel llestr yn cael ei yrru gan hwyliau a'r gwynt yn llond pob hwyl. Golwg osgeiddig sydd ar lestr dan ei lawn hwyliau. Wrth gwrs, gwaith diddorol yw rhwyfo : y mae gweld cwch yn cael ei hebrwng o un lan i lan arall yn enghraifft dda o grefft rhwyfo. Ceir miwsig yn osgo'r rhwyfwyr ac ystum y rhwyfau : y mae harmoni yn y cydergydion, a rhyw swn yn yswull y dwr a'r mynd trwyddo. Y mae'n ddigon artistig eithr heb fod mor osgeiddig a llong dan hwyliau. Y mae rhyw ryddid a mynd yn perthyn i long hwyliau, tra ar y llaw arall, caethiwir y cwch i fesur gan waith y rhwyfau pa mor artistig bynnag y byddo'r rhwyfo.

Felly hefyd am gyfieithu. Y mae trosi meddwl y gwreiddiol i iaith arall yn galedwaith, a defnydd mwyaf yr anhawster yw'r mesur. Ychydig yn wir o lwyddo perffaith a fu erioed ar drosi barddoniaeth i iaith arall yn herwydd y dirgelwch a berthyn i fesur. Yr eithriad dwyfol yw'r Salmau, a chyfrifir am y llwyddiant ar gyfieithu'r Salmau i'r ffaith ddarfod eu canu ar ffin Barddoniaeth

a Phros. Perthyn iddynt ryw ryddm anneffiniol. Gwir na pherthyn iddynt fwy o'r peth a alw'n ni yn fesur na gwaith Walt Whitman.

Achwynir ar y cyfieithiadau goreu o'r clasuron eu bod yn aneffeithiol, a'r mesur o hyd yw'r brofedigaeth : ac nid oes modd cyfleu'r gwreiddiol yn eu holl gynnwys o bydd osgoi'r mesur gwreiddiol. Nid trosi yn y meddwl yw'r peth : gall ysgolor wneuthur hynny, eithr rhaid cyfleu miwsig, ergyd, awyrgylch, llitrigrwydd y mesur. Rhaid meddwl yn y gwreiddiol a gwisgo'r meddwl gwreiddiol yn yr un arddul a diwyg.

Anos fyth yw llwyddo yn y gamp hon po berffeithiaf y bo'r farddoniaeth, y meddwl, yr iaith a'r mesur. Y mae gwybod y dirgelion hyn i gyd yn sicr o gaethiwo celfyddyd y cyfieithydd i fesur, a'r ffordd rwyddaf allan o'r dryswch yw cyfieithu i ryddiaeth. Tuedd y cyfieithu yw atgynyrchu'n llythrennol, mabwysiadu rhyddiaeth noeth neu roi ffurf farddonol i'r gwreiddiol a thrwy hynny gymryd yn hyf ar y gwreiddiol. Y perigl felly yw i'r cyfieithiad beidio bod yn ffyddlon i'r gwreiddiol na bod yn farddonol gywir.

Y mae cyfieithiad gorchestol Gwynn Jones o Faust yn batrwm o gyfieithydd wedi rhyw ail feddwl meddyliau Goethe yn y gwreiddiol, yna, eu rhoi ar dannau yr un mesur ac felly roi mynegiant i'r gwreiddiol trwy gyfrwng y mesur hwnnw ynghyd ag at gynyrchu ysbryd Faust, ac eneiniad math o ail ysbrydoliaeth ar y cyfan.

Tybier ein bod am funud yn rhoi barn ostyngedig ar waith cyfieithu Davis yn y goleu hwn. Yn ei gyfieithiad "Golwg ar Fangre ac Amser Mebyd," cadwodd at y mesur gwreiddiol, ac er iddo hwnt ac yma gymeryd mwy o ryddid na'i hawl, eto, dim ond cymharu'r pennill, gwelir mor agos oedd yn cadw at y gwreiddiol mewn awyrgylch ac ergyd ymadrodd. Y mae'r un peth yn wir am ddarnau ereill. Ond gan mai ei gyfieithiad o *Gray's Elegy* a gyfrifir yn gyffredin yn brif gampwaith ei fywyd, hwyrach y dylem gyfyngu ein sylwadau'n arbennig at hwnnw. I ddechreu, ystyrrir y gan honno yn un o glasuron yr iaith Saesneg. Yr oedd Gray fel y dywedodd William Watson,—

> "Or Gray, who on worn thoughts conferred
> That second youth, the perfect word,
> The elected and predestined phrase
> That had lain bound, long nights and days,
> To wear at last, when once set free
> Immortal pellucidity : "

Dyna hanfodion y gan ryfeddol honno—"the perfect word, the elected and predestined phrase."

Y mae rhyw raglunio ac ethol rhyfeddol yn y geiriau dethol: yr ymadroddion cabol: y melodi yn y mesur a'r awyrgylch clasur, anghyffyrddadwy. Pa mor bell y mae'r cyfieithydd wedi llwyddo i fynegi hyn oll yn ei waith?

Yn gyntaf dim, nid yw'n dilyn y mesur gwreiddiol: y mae mesur Gray yn rhan bwysig o bensaerniaeth ei gan. Dewisodd Davis fesur mwy rhydd a rhigl, braidd yn rhy sionc i ateb cyweirnod y gerdd,—

PRUDDGAN A YSGRIFENNWYD MEWN MYNWENT YN Y WLAD.

Y mae cywair melancoli hiroedlog ym mhob llinell a phennill, ac yn sicr, bu rhagordeinio rhagluniaethol yn newis y mesur. Ynfyd fyddai awgrymu na tharewir yn aml, aml ar ymadrodd hapus nodedig, geiriau'n llawn awgrym, llinellau ffyddlon iawn i'r testun gwreiddiol, eithr ni allwn lai na theimlo bod y bardd wrth fabwysiadu'i fesur wedi ei arwain hefyd oddiwrth y gwreiddiol yn aml. Am y tro, cymerodd mai ei alwedigaeth ef fel cyfieithydd oedd rhoi ffurf boblogaidd i gân glasur Gray. Llwyddodd yn ei amcan yn ddiameu, eithr ni lwyddodd gystal i gyfieithu'n gyson a chanonau goreu'r gelfyddyd honno. Ni ellir gwneuthur iawn am fod yn hyf ar y gwreiddiol. Yr oedd Davis yn gymaint caethwas i swynion a neges Gray fel y teimlai ei fod yn ei gyfiawnhau ei hun wrth dorri dros ben y terfynau a gyfrifir yn gyfreithlon. Tafiodd reffynnau'r syniad llythrennol am gyfieithu oddiwrtho gan hawlio math o dragwyddol heol. Gellid cyfiawnhau hyn i fesur yn ei ymgais i boblogeiddio gwaith ei arwr. Aberthodd urddas a gorffennedd cabol y gan wreiddiol wrth ddewis y dull hwn.

Efallai mai'r dull mwyaf effeithiol i ddangos y gwahaniaeth hanfodol mewn cyfieithu fyddai dethol o benillion y bardd ar un llaw a gwaith gorchestol R. M. Lewis (gynt o Abertawe) ar y llaw arall.

Cymerer y pennill cyntaf i ddechreu:

> "The curfew tolls the knell of parting day,
> The loving herds winds slowly o'er the lea,
> The ploughman homeward plods his weary way,
> And leaves the world to darkness and to me."

Dyma gyfieithiad Davis,—

Dacw ddolef y ddyhuddgloch,
Yn oer ganu cnul y dydd,
Dacw'r ychain gwâr lluddedig,
Yn dod adre i fynd yn rhydd,
A'r llesg arddwr yn ymlusgo,
Ar eu hol o glun i glun ;
Pawb gan ado'r byd a'i ffwdan,
Ant i orffwys ond fy hun.

Gwrandawer ar R.M. yn atgynyrchu ergyd a melodi 'r mesur, y symud hwyrfrydig, yr awyrgylch priod,—

Y ddwys ddyhuddgloch gana gnul y dydd,
Dan frefu'r buchod lwybra dros y ddol,
Yr arddwr adref yn ymlusgo sydd
Gan ado'r byd i nos a mi ar ol.

Cymerer eto bennill adnabyddus iawn,—

"Full many a gem of purest ray serene
The dark unfathom'd caves of ocean bear ;
Full many a flower is born to blush unseen
And waste its sweetness on the dessert air."

Dyma gyfieithiad Davis,—

"Y mae'r gemau a'r perlau puraf,
Goreu'u lliwiau is y llo'r,
Dan y tonnau'n gudd rhwng creigiau,
Yn nyfnderoedd mawr y mor.
Ac mae'r blodau teca'u lliwiau,
Lle nas gwelir byth mo'u gwawr,
Ac yn tannu'u peraroglau
Lle na sylwa neb mo'u sawr.

Dyma drosi meistrolgar R. M. Lewis,—

Mae perlau fil, o buraf loewaf liw
Yn nyfnder mor yn gorwedd obry'n gudd ;
Mae gwridog flodau fil, nas gwel ond Duw
Yn treulio'u sawr ar anial awel rydd.

Credwn fod Davis Castellhywel yn ei gyfrif ei hun wedi ei alw i ddehongli meddyliau clasur a iaith urddasol i fod yn symbyliad i gymell gwerin gwlad i hoffi barddoniaeth aruchel. Gwnaeth hynny heb fod yn werinaidd ei arddull fel y Ficer Pritchard. Yr oedd bywyd, marwolaeth, anfarwoldeb, moesoldeb, yn destunau yn ei olwg y dylai'r werin fyfyrio'n ddwys arnynt, canys felly'n unig y diwyllid cymeriad rhinweddol yn eu plith. Ysbrydoli'i oes i ystyriaeth felly oedd neges cyfieithiadau a gwaith gwreiddiol Davis Castellhywel.

DYFNALLT.

Davis a Phleidwyr y Chwyldro Ffrengig yng Nghymru.*

YR un flwyddyn ag y llosgwyd *effigy* Tom Paine yng Nghaerdydd (1792) bu cyffro mawr ynglyn a'i lyfr yn ardal Gwrecsam, a galwyd sylw'r llywodraeth at y peth. Cedwid gweithfeydd haearn yn *Bersham* gerllaw Gwrecsam gan wr o'r enw John Wilkinson, a oedd yn frawd-yng-nghyfraith i'r enwog Ddr. Priestley. Cyhuddid Mr. Wilkinson o dalu ei weithwyr ag arian papur Ffrengig (Assignats), a dywedid bod Presbyteriaid yr ardal yn darllen llyfr Tom Paine ac yn darlithio i'r gweithwyr ar egwyddorion y "Rights of Man." Dylid ychwanegu, hefyd, fod egwyddorion gwleidyddol a chrefyddol y Dr. Priestley erbyn hyn yn tynnu sylw mawr yn y Deheudir hefyd, yn enwedig gwaelod Sir Aberteifi a gorllewin Caerfyrddin. Yr oedd Samuel Horsley, Esgob Tyddewi, wedi ysgrifennu yn erbyn syniadau Priestley, a bu dadl frwd rhyngddynt am rai blynyddoedd.

Yn ystod haf 1791, bu Priestley a'i gyfeillion yn y "Revolution Society" ym Mirmingham yn dathlu penblwydd y Chwyldro Ffrengig. O'r herwydd, fe ymosododd "Plaid y Brenin a'r Eglwys" ar dai cyrddau'r ymneilltuwyr yn y dref honno, a llosgi tai amryw ohonynt, megis eiddo William Russell a Phriestley ei hun. Gwnaethpwyd yr un peth, hefyd, yn Llundain, Manceinion

---

*Teg dywedyd i mi fod tan orfod i adael y rhagymadrodd ar y Chwyldro'n gyffredin allan a chaiff ymddangos fel ysgrif yn y rhifyn nesaf. Gwell hyn na chwtogi a gwneuthur cam a'r ysgrifennydd.—GOL.

a threfydd y Gorllewin. Effeithiodd y berw hyn yn union ar y cynulleidfaoedd ymneilltuol yn Lloegr a Chymru, a phasiodd llawer ohonynt benderfyniadau o deyrngarwch i'r brenin a'r llywodraeth. Mentrodd eraill, yn enwedig y Presbyteriaid a'r Undodiaid, gydymdeimlo a Phriestley. Mewn Cymanfa yn Llechryd yn 1791, cynigiodd y Parch. David Davis, Castellhywel, eu bod yn cydymdeimlo a Phriestley yn ei golled, a phasiwyd eu bod yn anfon gair at y Dr. trwy law'r Parch. Josiah Rees o'r Gelli Gron.

Amddiffynwyd Priestley gan un Cymro galluog, a thynnodd ei bamffledi lawer o sylw yng Nghymru.

Hwnnw oedd David Jones, brodor o ardal Llanymddyfri, a addysgesid yng Ngholeg Homerton, Llundain, er mwyn bod yn weinidog gyda'r Methodistiaid. Trodd at yr Undodiaid, a symud i Goleg Hackney, lle dewiswyd ef wedi hynny yn athro mewn ffilosoffi. Diddorol yw sylwi mai efe a ddilynodd y Dr Priestley fel gweinidog y Ty Cwrdd Undodaidd ym Mirmingham, ar awgrym Priestley ei hun. O dan y teitl "Welsh Freeholder" ysgrifennodd David Jones amryw o bamffledau i amddiffyn Priestley a'r Ymneilltuwyr yn erbyn cyhuddiadau'r Esgob Horsley. Parhaodd y ddadl rhyngddynt am flynyddoedd, a lliwiwyd hi gan yr hyn a ddigwyddai yn Ffrainc.

Ond nid yr Ymneilltuwyr yn unig a bleidiai'r Chwyldroad. Yn ei Siars i Weinidogion ei Esgobaeth, fis Mehefin 1791, canmolodd Watson, Esgob Llan Daf, egwyddorion y Chwyldro. Yr oedd y Ffrangwyr, meddai, wedi dadwaddoli'r Eglwys yn eu gwlad eu hunain, a chyhoeddi rhyddid crefyddol i bawb, ac edrychai'r Esgob ymlaen at yr adeg pan wnelid yr un peth ym Mhrydain. Yn naturiol, yr oedd y Siars wrth fodd yr Anghydffurfwyr, a chyfieithwyd hi i'r Gymraeg yn 1793. Gwyddys erbyn hyn mai'r Parch. David Davis, Castellhywel, oedd y cyfieithydd; o leiaf, dyna a hawlir gan y Parch. Timothy Davis ar y copi o'r cyfieithiad a roed i lyfrgell Caerdydd gan y diweddar Mr. J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul. Bu cylchrediad eang i'r siars a'r cyfieithiad ohoni.

Ac yn y fan hon efallai y bydd hi'n fwyaf cyfleus i ystyried osgo'r Parch. David Davis yntau at y Chwyldro. Dywedwyd eisoes am ddylanwad y Dr. Priestley arno—yr oedd David Davis yn edmygydd mawr o syniadau gwleidyddol Priestley, eithr ni chyd-olygai'n wastad ag ef ar bynciau diwinyddol. Bu David Davis, hefyd, yn gohebu a'r Dr. Richard Price, ac yn "Nhelyn Dewi" ceir englyn Lladin, "Lines for Samuel Tenton (*h.y.* Tyn

Ton)* to thank his brother Charles for a favour." O lenorion Saesneg eraill y cyfnod a ddylanwadodd ar David Davis, yr oedd dau ohonynt o leiaf, sef William Roscoe (awdur "The Wrongs of Africa") a Mrs. Barbauld yn ddiwygwyr selog, ac yn bleidwyr y Chwyldro yn Ffrainc.

Eithr dywed cofiannydd Davis—y Parch. T. Griffiths (Tau Gimel)—am dano fel y canlyn :—"Yr oedd Mr. D. yn wresog ei ddymuniad dros ryddid gwladol, yn gystal a chrefyddol. Ei egwyddorion oeddynt yn *Frytanaidd*, gan ystyried y sefydliad neu'r Llywodraeth Frytanaidd, fel ag yr oedd, yn addasach i sefydlu'r Wladwriaeth na dim a gynnygid." Yn nes ymlaen, fe gydnebydd Tau Gimel dan led-wrido :—"ei fod (D.D.) gyda llawer o'r dynion mwyaf eu cymeradwyaeth yn ffafriol i'r Chwyldroad, neu yn hytrach y Cyfnewidiad Ffrengig (French Revolution)." Ond y gwir amdani, yr oedd David Davis yn bleidiwr selog o'r Chwyldro Ffrengig hyd tua 1798, o leiaf. A pha raid oedd celu hynny, oblegid yr oedd goreuon Cymru a Lloegr ymhlith cefnogwyr y symudiad ?

Ar ddiwedd "Telyn Dewi," ceir "ychwanegiad o waith yr yn awdwr," ac yn y rhan honno ceir amryw o ddarnau a lliw y Chwyldro arnynt. Yn 1793 y canodd David Davis ei Awdl ar "Chwyldroad Ffrainge," oherwydd cyfeiria at fuddugoliaethau'r Ffrangwyr ar y Cynghreiriaid :—

"All un swyn roi ffrwyn i Ffrainge—i'w dofi
A defyn main ungainge ?
Ofer i filwyr ifainge
Byth anturio ffrwyno Ffrainge.

Hen filwyr, treiswyr trawsion,—a llewod
Yn lluoedd echruslon :
Llu ffyrnig, Brunswig, o'r bron,
Giliant fel haid o gylion.

Ofer yw i Hanoferiaid,—eu tan
Ni phrisian' ; na Phrusiaid ;
An' yn y blaen yn un blaid
Drwy restri tewa'r Austriaid.

---

*Yn ol atgofion Prof. Evans (penes G.E.E.) nid yw Tenton ond cam argraff am Fenton. Plant oedd Charles a Samuel i Richard Fenton, Hanesydd Pemfro. Cyhoeddwyd ei hanes gan Longman Rees a'i gwmni a thrwy Rees yr anfonodd Fenton ei feibion i Ysgol Davis.—GOL.

Cyfeiria at ddienyddiad Brenin Ffrainc :—

"Troes Ffraingc orseddfaingc gwr swyddfawr,—ac aur
Ei goron i'r priddlawr ;
Ble'r aeth parch y monarch mawr ?
Darfu mewn amharch dirfawr."

Torrwyd gormes yr offeiriaid, hefyd, a gadwodd y bobl cyhyd mewn tywyllwch, a gwel David Davis y dydd pan fydd Ffrainc yn ben ar y gwledydd :—

"Bellach Ffraingc ar faingc a fydd,—yn hynod
Frenhines y gwledydd ;
Hed myrddiynau'u rhwymau'n rhydd
O dan ei mwyn adenydd."

Yna, gofyn i'w gydgenedl bleidio Ffrainc :—

"Dwedwch, dedwyddwch doed iddi—heddwch
Di-dristwch da trosti ;
Gelynion y goleuni
Yn gad hell a'i gado hi.

Moled gwŷr synwyr y Senedd—roddai
Lawn ryddid heb ommedd ;
I'w mwynhau gan bawb mewn hedd,
Heb wa'n rhwng gwreng a bonedd

Chwi Frython rhyddion rhoddwch—yr eurglod
I'r Arglwydd, dangoswch
Orfoledd, na ryfelwch
A'r llaw a gwyd fyrdd o'r llwch.

Fel llawer craill o bleidwyr y Chwyldro, credai David Davis mai ordinhad Duw oedd y mudiad hwnnw, ac mai ofer felly ei wrthwynebu :—

"Er i arthod
Ac eryrod } Godi'n lluoedd
Gyda llewod
Byth ni lwyddant
Pan ryfelant, } A Duw'r Nefoedd.
O dra nwyfiant

I'r un amser y perthyn ei "Englynion i'r Offeiriaid a'u Ymprydiau Gwladol," Ymesyd ar ormes offeiriaid sydd, er mwyn eu lles eu hunain, yn erbyn pob diwygiad :—

"Amhrydferth, anferth anfad, —rhoi'r degwm
I'r diogyn dialwad ;
Y gwr, newyna'i giwrad,
Dragywydd g'wilydd ein gwlad.

Beio a digio am bob diwygiad,—newydd
A wna pob Pen Ffeiriad ;
E gyll hur os daw gwellhad,
Drwy gyfraith, o'r drwg afrad."

Yna dyry ergyd i Edmund Burke, a fuasai yntau unwaith yn bleidiwr rhyddid, ond a droes yn erbyn diwygiad.

Yr oedd Dafydd Davis, hefyd, yn un o'r rhai a sgrifennai i "Gylchgrawn Cynmraeg" Morgan John Rhys. Ceir yn y "Cylchgrawn" ddau englyn o'r eiddo i "Dumouries, Cadpen y Ffrancod, yr hwn a drows yn eu herbyn," a rhes o englynion ar yr Offeiriaid, y ddau heb enw wrthynt. Uwchben yr englynion i'r Offeiriaid, fe ddywedir :—"Yr ydwyf wedi hir alaru, wrth weled cymaint o weddill pabyddiaeth yn aros yn Nghymru ymhlith pob plaid. Nid ydwyf yn bwriadu rhoddi drwg absen i neb mwy na'i gylidd. Chwilied pob un ei dy ei hun." Fel sampl, cymerer y ddau englyn hyn :—

"Na âd un Ffeiriad na Pharao—i'r Haulwen
Wiw lawen oleuo ;
Ond llu'r fagddu, ni all rwystro,
Yr haul fru, a *hawl* y fro.

Ceiff caethion, deillion o dywyllwch,—olwg
Ar haulwen diddanwch ;
Daw dyddiau llawn dedwyddwch
Ar waelion llwydion y llwch."

Yn "Nhelyn Dewi," ceir hefyd "Hymn wedi ei chyfieithu o'r Saesneg, a ganwyd yn Sheffield ar ddydd Gwyl y Brenhin, yn y flwyddyn 1794." Y mae naws y Chwyldro yn drwm arno, fel y dengys y ddau bennill a ganlyn :—

"Ti'n Duw a'n Hollalluog Ior !
A rwymi'r gwynt, a thonnau'r mor,
Gorthrymwyr beilch, cynddeiriog dof,
A'r cablwyr hyll dwg etto i'w cof.

"Pob carchar tor, a chlwm, a chlo;
I gaethion, breintiau rhydd-did rho,
Ymg'ledda'r gwir—maluria'r cledd—
Rho'r gair—cawn haf, a byd o hedd."

Gwrthwynebai David Davis y rhyfel a Ffrainc, a than y flwyddyn 1797 ceir yn un o'i lawysgrifau yr englyn a ganlyn i William Pitt :—

Gad i Will godi'i wala—o'r arian
A'r aur i ryfela;
Ni wn i nad hynny a wna
I'r filain dorri'i fola."

Yr un flwyddyn, cyfeiria at y deisebau i'r Llywodraeth am heddwch :—

"Mr. Dale Price the proposer of the Hereford Petition excellently paints the likeness between the French and (the) American War. It is strange the nation should be twice gulled in one age by the same trick." A than y nodyn ceir a ganlyn :—

"Cans llawer ffol yn ol y ffair
O'i golled wnair yn gallach,
Ond nid all dim byth wella dyn
O'i ffwlio wnair yn ffolach.

Pe i'r Brython rhyddion rhoddid—aur melyn,
A'r miloedd pe rhifid,
Chwydai'r llu'n chwai o dra llid
Bob rhoddion heb y rhyddid."

Yn ystod yr erlid gan y llywodraeth rhwng 1793 a 1797 bu David Davis yntau o dan lygaid sbiwyr Pitt. Cyfeirir at hyn gan ei Fywgraffydd :—"Gan ei fod — yn ffafriol i'r Chwyldroad — nodwyd ef allan yn fuan gan Uchelwyr y Deyrnas fel un i wylied arno. Aeth drwg-dybiau y Llywodraeth wladol mor bell am anffyddlondeb Mr. Davis fel ag y gosodwyd Goruchwyliwr y Trethi (Surveyor of the Taxes) o'r enw Johnson, i graffu yn wyliadwrus ar Mr. D. Dywedodd Johnson wrth y Parch. Mr. Griffiths, Llwyndyrus, am hyn: tystiodd yr offeiriad parchus hwnw nad oedd ganddynt un achos yn y byd i ofni ei fod fel y tybient." (Cofiant, tud. 27, 28). Ac nid dyma'r tro cyntaf i Ddafydd Davis ddioddef dros ei egwyddorion. Yn 1790, gwrthododd Samuel Horsley, Esgob Tyddewi, ordeinio'r neb a fuasai'n ysgol Castellhywel oherwydd syniadau gwleidyddol a chrefyddol yr ysgolfeistr. Er gwaethaf ei ddawn a'i ddysg gwr cul a thrahaus ei ysbryd oedd yr

Esgob Horsley—efe a ddywedodd yn y Senedd nad oes a wnelo'r werin ddim a chyfreithiau'r wlad ond ufuddhau iddynt.—Ac ni raid synnu ar ymddygiad o'r fath oherwydd gwneir pethau rhyfeddol garedig yn enw crefydd ymhob oes.

Un o brif ddadleuon gwrthwynebwyr y Chwyldro ym Mhrydain oedd bod y Ffrangwyr yn wrthgristnogol. Dywedent eu bod wedi llunio crefydd newydd gan roi Rheswm yn lle Duw'r Cristion. Nid oedd y cyhuddiad yn un teg yn erbyn y genedl yn ei herwydd, er ei fod yn wir am lawer o'r arweinwyr ym Mharis; ond gwelai'r llywodraethwyr yn Lloegr y medrent ei ddefnyddio i'w diben eu hunain. Dyma ddadl i gyfiawnhau'r rhyfel a Ffrainc, oherwydd medrent ddywedyd eu bod *hwy* yn rhyfela dros y grefydd Gristnogol yn erbyn yr annuw.

Dinoethwyd y rhagrith hwn o geisio cysoni rhyfel â'r ffydd Gristnogol gan wŷr megis Tom Paine a Gilbert Wakefield yn Lloegr. ac yng Nghymru gan y Dr. William Richards a Thomas Evans, Glyn Cothi. Brodor a ardal Hwlffordd oedd William Richards; bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol yn Lynn, Swydd Norfolk, a chyda William Thomas, Llangyndeyrn a Benjamin Phillips, Salem, Meidrum, daeth yn aelod o'r Gymdeithas Ddwyfundodaidd yn 1802. Cyhoeddodd William Richards ddau bamffledyn o blaid y Ffrangwyr, sef "Reflections on French Atheism and on English Christianity," ac "Ymborth ar Ddydd Ympryd." Beth bynnag oedd credo aelodau'r *Convention*, medd William Richards, yr oeddynt wedi deddfu bod rhyddid i bawb yn Ffrainc i addoli yn ol ei gydwybod ei hun. Ac os oedd sawr Atheistaeth ar hynny, buasai'n well i addolwyr y gwir Dduw pe buasai deddfwyr a llywodraethwyr pob oes yn Atheistiaid, oblegid arbedasai hynny'r erlid a thywallt gwaed a wnaethid yn enw crefydd. Yr oedd llywodraethwyr Prydain—ddadleuwyr ffraeth dros y Fasnach mewn Caethion a thros y rhyfel a Ffrainc—yn dra thebyg i'r ymprydwyr a ddisgrifir gan Eseia; yr oeddynt yn ymprydio i "ymryson a chynnen," ac nid oedd yn rhyfedd yn y byd fod yr Ymprydiau yn troi'n felltith iddynt.

Trwy weithiau'r Dr. Priestley y daeth Tomos Glyn Cothi o dan ddylanwad y Chwyldro Ffrengig, Y mac'n anodd gwybod pa sut y daeth Thomas Evans gyntaf ar draws syniadau Priestley; efallai mai trwy wrando ar Ddafydd Davis Castellhywel a phregethwyr Ariaidd eraill yn Nhy Cwrdd Alltbiaca. Beth bynnag, gwyddys iddo ddyfod yn edmygydd o Briestley, ac nid anniddorol y ffaith mai "Priestley Bach" oedd un o'r llysenwau arno yn ardal Brechfa. Yr haf 1795, cychwynnodd Thomas Evans gylchgrawn Cymraeg—"Y Drysorfa Gymmysgedig." Bwriedid cyhoeddi'r Drysorfa bob chwarter, ond tri rhifyn yn unig a ymddangosodd.

Un o nodweddion arbenicaf y "Drysorfa Gymmysgedig" yw'r gweddiau a'r hymnau ar gyfair yr amseroedd, ac yn y rhain y fllangellir llywodraethwyr traws ac y pleidir egwyddorion y Chwyldro Ffrengig. Mewn gweddi "i'w harfer ar ddydd ympryd," darlunir rhaib y rhyfel, creulonder y llysoedd barn, a chyni'r pobloedd :—"Adfyd a thrueni sydd yn gorchuddio wyneb y ddaear——Treiswyr sydd, yn sychedu am waed, yn anrheithio y byd, ac yn gwasgaru anghyfanedd-dra dros y gwledydd——Cynddaredd uffern sydd ar led yn y byd ; gwallgof cythreuliaid sydd yn aflonyddu ein llysoedd ; y tlawd sydd yn llefain yn ein heolydd am fara, a rhai cyfiawn y ddacar mewn caethiwed." Tadoga Thomas Evans holl ddrygau cymdeithas ar frenhinoedd ac offeiriaid, a gofyn i'r bobl ddwyn eu hawdurdod oddiarnynt, a sefydlu eu llywodraeth ar freiniau anianol dyn.

Fel engraifft o hymnau Tomos Glyn Cothi, cymerer y penillion a ganlyn :—

"Yn bendramwnwgl bwr i lawr,
Holl dreiswyr byd mewn munud awr,
O ! gwasgar, Hollalluog Dad,
Y rhai sy'n pesgi ar ddynol wa'd.

Yna, daw heddwch i bob gradd,
Yn lle gorthrymder llym, a lladd ;
A'r hollfyd fel cyd blant yn byw
Yn deulu mawr i ti ein Duw.

Yna caiff caethion fynd yn rhydd,
O'u bron, 'n ol bod yn hir yn brudd,
A mwynhau'r breintiau hyfryd hael
Appwyntiodd natur i ddyn gael."

Hyd yn ddiweddar, fe gredid mai yn 1797 y carcharwyd Tomos Glyn Cothi. Eithr darganfu Mr. D. Lleufer Thomas, M.A. (y sydd ei hun yn ŵyr i frawd Thomas Evans), mai ar y pumed o Fawrth 1801 y bu'r "cwrw bach" lle dywedid iddo ganu cerdd deyrnfradol. Cafodd ddwy flynedd o garchar yng Nghaerfyrddin, ac yn ystod y term hwn bu ddwywaith yn y rhigod hefyd.

Ond ni all cadwyni'r carchar ladd ysbryd gwr fel Tomos Glyn Cothi, a pharhaodd ef hyd ddiwedd ei oes i sgrifennu dros ryddid crefyddol, gwleidyddol a meddyliol. Yn ei draethodau ac yn ei Hymnau a gyhoeddwyd yn 1811 (ail arg. 1822) deil ati i gyhoeddi "breiniau dyn" yn erbyn llywodraethwyr traws y dydd, ac i bleidio rhyddhad y caethion a heddwch cyffredinol.

Abergwaun,
Medi 24, 1927.

JOHN J. EVANS,

Ei Syniadau Crefyddol.

CYLCH EI WEINIDOGAETH.

LLWYNRHYDOWEN 1768/9—1820 (ymddiswyddodd Ion. 16).
ALLTYBLACA 1768/9—1820.
CILIAU 1768/9—1820.
PENRHIW, codwyd 1777 (oherwydd ymrafael yn Nrefach)—1820.
MYDROILYN, codwyd 1753 (circa), 1768/9—1803 (circa) Cylch Wesleyaidd 1804—1807, wedyn Capel yr Annibynwyr.
BWLCHYFADFA 1814 (wedi ymadael o John Jones)—1820..

GESYD ardal hyd y medraf i weld ei delw a'i lliw ar feddwl a datblygiad dyn. Delir ef yng ngwe'i thraddodiad, llenyddol neu arall. Tynnir ef i mewn i'w bywyd a'i diwylliant. Rhaid iddo brifio ar hyd ei llinellau hi—mynd gyda'r llanw oni bydd yn ddigon mawr i droi'r llanw i gyfeiriad arall, ac od ydys am adnabod dyn rhaid inni'n gyntaf o leiaf geisio adnabod yr ardal.

Daeth Davis yma i'w gynhefin, ac nid oes raid ond nodi'r dylanwadau a'r diwylliant a'i ddangos ar flaen y llanw, nid fel arloeswr ond fel cynnyrch ei ardal fel pe tae, a diddorol ydyw cipdrem ar gylch o ugain milltir mwy neu lai er gweld.

Dyma fro Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin ; Gruffydd Jones o Landdowror a'i ysgolion ; Theophilus Evans, Awdur Drych y Prif Oesoedd ; Moses Williams y Glaslwyn, Awdur ein Llyfryddiaeth gyntaf ; Sion Rhydderch y Bardd, yr Argraffydd a'r Gramadegwr ; Abel Morgan o'r Alltgoch, Awdur Cydgordiad Egwyddorawl o'r Scrythurau ; Iago ab Dewi a'i ddyrïau duwiol ; Beirdd Cwmdu ; John Evans, Meinigwynion, Awdur Cyssondeb y Pedair Efengyl ; Jeremi Owen, y llenor coeth a llu eraill.

Yn Adpar, ger Emlyn gosodwyd yr argraffwasg gyntaf yng Nghymru yn 1718. Yn y dyffryn y gweodd rhywun yr hen gerdd "Morgan Jones o'r Dolegwyrddon," "y peth tebycaf i faled yn Gymraeg." Heb fod nepell ceir cartref yr hen Ficer a Channwyll y Cymry. Dyma fro'r penillion telyn a'r dyrïau duwiol, ac y mae'n aros mewn llawysgrifau ryw dri chant o garolau a halsingau. Yn y cymydogaethau hyn bu Morgan Rhys yn cadw ysgol, a Dafydd Jones o Gaio yn cyfieithu emynau Watts. Ar ffin y cylch y gellir cyfrif Pantycelyn. "Yr ardal hon roes i'r Bedyddwyr eu hysgrifenwyr Cymraeg boreol bron i gyd. Yma y cododd Rees David, Abel Morgan, Enoch Francis, Timothy Thomas a Joshua Thomas."

Cerddodd llawer storm trwy'r fro wrth ddadleu ar fedydd (1691—1696) ac yr oedd cangen o Eglwys Rhydwilym gerllaw yng Nglandwr a Thomas Dafydd Rhys yn weinidog arni wedi'r ymrafael rhyngddo ef a Stephen Hughes yn Llandysul. Daeth dadleuon Llundain ac Ecseter i Henllan a Dyffryn Teifi fel rhagredegwyr dadleuon chwerwach. Ar y cwr eithaf torrodd y Diwygiad Methodistaidd allan ym mhregethu Daniel Rowlands. Yma hefyd y ceid y ddadl fawr Arminaidd a dylanwad Coleg Caerfyrddin yn Jenkin Jones a Dafydd Llwyd. Yma hyd heddiw y saif yr "Ysmotyn Du." Dyma ardal yn ferw drwyddi, ardal ar ddihun ac mewn ardal fel hon y canwyd :—

"Mae rhai'n yr henffydd a rhai o bob krefydd,
A rhai o'r ffordd newydd drwy'i gilydd 'n glir ;
Ac fellu'i mae'n rhyngthyn 'n dottio'r kyffredin,
Ni ŵyr undyn i'w galyn pwu a goelir."

O gofio hynyna fe welir ergyd dyfyniad o'r "Llenor" Gwanwyn, 1926—

"Odid nad oedd mwy o ddarllenwyr yn y parthau hyn yn nechreu'r ganrif nag mewn un ardal arall yng Nghymru * * a thrwy'r ddeunawfed ganrif nodweddir trigolion y wlad gan ryw anesmwythyd meddwl ar bynciau crefyddol * * Yma y cododd pregethwyr fel Jenkin Jones a Dafydd Llwyd, gwŷr oedd mewn cysylltiad a meddyliau rhyddaf Lloegr : gwŷr oeddynt a feirniadai'r hen ddiwinyddiaeth draddiodadol ac a ymdrechai am ryddid barn mewn byd ac eglwys. . . . . Ni synnwn ddim pe dywedai hanesydd yn y dyfodol nad oedd ddosbarth o ddynion mwy goleuedig yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif na'r gwladwyr a dyrrai i wrando ar Jenkin Jones, a Dafydd Llwyd a Dafydd Davis i hen gapel Llwynrhydowen."

Tra thebig yw barn cyfoeswr yn y Monthly Repository am 1811. "The Welsh Unitarians . . . . understand and feel the value and importance of their principles and their general information is much greater compared to that of the mass of the people among whom they live."

Pobl anesmwyth o feddwl, pobl ddarllengar, pobl yn chwilio am oleuni a rhyddid oedd gwladwyr syml y fro yn amser Castellhywel.

Nid oes angen ond nodiad neu ddau er gweld yn glir. Yn 1691 ceid y dadleuon ar Fedydd a'r ddadl Antinomaidd : Yn 1706, 1708, a 1709 y ddadl yn Henllan a ffurfio eglwys Rhydyceisiaid :

Yn 1712 cyhoeddwyd llyfr Samuel Clarke ar "The Scriptural Doctrine of the Trinity" a ridyllodd yr Anghydffurfwyr drwodd a thro: Yn 1719 ceid ymrafael Salters Hall yn Llundain, ac yn 1726 Jenkin Jones yn pregethu yn y Wernhir a chodi'r capel cyntaf yn 1733 a marw'n wr ieuanc yn 1742 a chwech neu saith o weinidogion a chynulleidfaoedd yn coleddu'i syniadau. Tua diwedd 1768 daeth Davis i'r cylch oherwydd cawn yn llythyr Dafydd Llwyd, Meh. 17, 1768 "Mr. David Davis is like to settle here as my assistant," ac yntau wedi bod yng Ngholeg Caerfyrddin 1763—1767, ac yn ol hen lawysgrif (M.S. 2710 B. N. L. W). "Yn y Cilgwyn y derbyniwyd y dyn mawr hwnnw Davis Castellhywel yn y 18fed flwydd o'i oedran yn y fl. 1763." Fe geir y dyddiad yn Nyddiadur Timothy Davies, Caeronnen, ond rywsut 1761 sydd gennyf i, ond hwyrach mai fi sy'n methu.

Dyma'i brofiad ac yntau'n edrych yn ol mewn afiechyd yn 1778 :—

Gweld fy nhad yn plygu'i liniau
Mewn defosiwn hwyr a bore—
Barodd imi'n blentyn gyntaf
Feddwl am y Duw goruchaf.

Ac am ei droedigaeth chwedl y diwinyddion :—

"Wrth fugeilio'n llencyn egwan
Deutu wyth neu naw-mlwydd oedran,
Ar y banc mewn rhedyn tewon
Rhwng y defaid a'r da duon,
Syrthiais gyntaf ar fy neulin ;
Wedi syrthio ffaelu erfyn ;
Codi fyny mewn cyfyngder
Heb ddilwytho gair o'm blinder ;
Drymach, drymach 'r ai nghaledi,
Mynych ostwng, mynych godi—
Hyd nes mentrais lefain allan
A gweddio mewn modd egwan."

Erbyn Ion. 1, 1769, yr oedd wedi ymsefydlu yng Nghiliau a bu'n weinidog hyd ei ymddiswyddo yn 1820. (Gyda llaw, dywedir na chafodd dros £30 y flwyddyn erioed ac ond dywedyd rhywbeth yn ddigon aml fe'i derbynir fel gwir, ond yn nyddiadur ei fab—Y Parch. Timothy Davis, o Evesham—ceir y cofnod hwn: "I had been the means of raising my father's salary from twentyfour pounds to £50 pr. an. and my own the same." M.S. 5487 C.).

Diddorol yw'r nodiad a geir ar dudalen 127 o Hanes Plwyf Llandysul am dderbyn Christmas Evans yn aelod yn y Llwyn ond ni chai bregethu yno am na fu mewn coleg, ond ni wn i ar ba sail y'i gwneir.

Yn 1773 gwnawd cynnyg i gael rhyddid oddiwrth arwyddo y deugain erthygl namyn un a llwyddwyd yn 1779, blwyddyn marw Dafydd Llwyd. Dyma'r adeg y caniatawyd yn hytrach ddatgan cred yng nghanon yr Ysgruthur ac addo gwneuthur y rhai hyn yn rheol athrawiaeth ac ymarferiad. Dyma lle yr ym heddiw hyd y gwn i.

Gydag apel 1773 anfonwyd rhestr o eglwysi ac enwau gweinidogion wedi arwyddo neu'n barod i arwyddo'r apêl. Gelwir y rhestr yn Thompson's List ac er fod dau o bob tri o weinidogion Lloegr a Chymru wedi gwneuthur, ni cheir ond pedwar enw yn Sir Aberteifi, a dau ohonynt o Lwynrhydowen—Dafydd Llwyd a Dafydd Davis, a'r ddau arall o Lechryd. Rhaid cofio fod y wlad yn ferw drwyddi.

"Yng Nghenad ychwanegol at Gymanfa Blaenywaen, Mehefin 1800, sylwa y gwr o Lynn mai yr hyn 'barodd fwyaf o fraw i feistriaid y Gymanfa * * oedd dyall i fod rhyw gyfarfodydd at rydd ymofyniad yn cael eu cadw ar hyd cymydogaeth Caerfyrddin. Gwnaeth hyn gyffro nid bychan a chwedi pwyso'r perygl ac ymgynghori o ddifrif cytunwyd yng Nghwrdd Chwarter Blaenywaen i gadw Cabidwl Fawr yng Nghaerfyrddin tuag at ragflaenu ac atal effeithiau neu ganlyniadau niweidiol y cyfarfodydd hyn a'r ysbryd ymofyngar ag oedd yn awr yn codi ei ben yn y wlad.'"

Dewiswyd pump o areithwyr ar bum Pwnc Calfin, ond y mac'n anodd credu i'r Gabidwl fawr lwyddo. Yn 1779, mewn canlyniad i'r cynnwrf amddifadwyd llawer o eglwysi o wasanaeth eu gweinidogion, er engraifft: Glanyfferi, Ty Coch a Ffynnon Henri (James Davies, Rhydargaeau).

Yn 1791 llosgwyd ty Priestley ym Mirmingham ac yng nghyfarfod y tri enwad yn Llechryd ceir Davis Castellhywel yn cynnyg anfon annerch i Priestley ar y digwyddiad a cheir ei ateb yntau wedi'i ddyddio o Lundain, 3 o Hydref, 1791. Dyna'r amseroedd yr oedd Davis yn byw ynddynt.

Nid Trindodwr mohono.

Onid oedd yn olynydd i Jenkin Jones ac yn gyd-weinidog a Dafydd Llwyd. Pe buasai, nid arbedid mohono gan Dr. Charles Lloyd. Bu "Ymddyddan Brawdol" rhyngtho a David Saunders o Ferthyr ar y Drindod, a dyma farn Davis yr adeg honno,—

"Undod nid Drindod yw'r un-Duw—a ddeil
Addolwyr y gwir-Dduw:
Dwl tra-dall sy'n dal tri-Duw,
Myn y doeth mai un yw Duw."

Darllener ei apel a'r Gân i'r Parch. Josiah Rees yn 1780—" Telyn Dewi " tdd. 112-113 :—

A ddarfu iti, yntau, 'nawr droi dy feddyliau
Ac i'r hen heresiau mewn geiriau roi gwad ?
Ac o gyffredinol lwyr-ddod yn neillduol
I dybiau cul fanol Calfiniaid ?

Da iawn y dyn dawnus, os daethost di'n iachus
'Nol bod mor resynus dihwylus dy hynt :
Y mawrles wna'r mawrlwnc pan lyncer ar unllwnc
Heb bryder y pumpwnc a'r pumpynt.

Nid Undodwr mohono ychwaith.

Yn 1801/2 bu anghydfod yn y Llwyn ac Alltyblaca oherwydd cerdded o Ddavis yn rhy araf. Ariad ydoedd a dyna esbonia'r rhwyg ac adeiladu Capelygroes a Phantydefaid. Myn Dr. Charles Lloyd yn y Monthly Repository am 1817, tud. 743, mai canlyniad y mudiad ym Mrechfa gan Thos. Evans (Tomos Glyn Cothi) a gefnogwyd gan Lindsey oedd yr ymneillduo a chodi'r capelau Undodaidd Cyntaf yng Nghymru. Dywed Davis mewn llythyr dydd Chwef. 2, 1803, parthed yr ymneillduo,—

" 9 neu Ddeg o'r Llwyn, 50 o Alltyblaca a thuag ugain o Giliau."

Ymhellach, trueni cyfnewid emyn mewn *ystyr*, a dyma ddau bennill o'i emyn ac y maent yn ddiddorol :—

" Mewn meddiant llon a llawn fwynhad
O ryfedd iechydwriaeth râd
I roddi byth, mewn eitha hoen
Galonog fawl i Dduw a'r Oen.

Rhai sydd a mawl fyth ar eu min
Heb unrhyw bla na phechod blin,
Ar ddelw hardd eu Prynwr mawr
Mewn gwisgoedd fel goleuni'r wawr."

Wrth adrodd ei brofiad yn " Ffarwel i'r Byd a'r Eglwys " yn 1778 gwelir ar beth y pwysai :—

" Mi gefais lawer oedfa wiw
Pan yn ifanc ym Mhenrhiw,
Pan bai'r Ifans, Llwyd a'r Gronow
Ar eneidiau'n daer yn galw—

* * *

Trugaredd wiw a Phrynwr rhad
Am cefnogodd at fy Nhad."

Mewn llythyr at gyfaill a geir yn ei Gofiant dywed,—" Yr ydwyf yn cael fy hollol foddloni y gall fod Dr. Priestley a phersonau o'i blaid ef yn Gristionogion da a duwiol," a chofier, Undodiaeth Priestley oedd Undodiaeth Ceredigion a Chymru ar y dechreu nes dwyn o Wilym Marles ac ereill Undodiaeth Parker i Gymru.

Ariad oedd Davis.

Ys dywedai Dr. Charles Lloyd yn 1801 " Davis had no pretensions but to Arian orthodoxy."—Part. p. 151. Yn y Monthly Repository am 1811 tud. 690 yn Adroddiad Lyons ceir : " Mr. Davis of Castellhywel is an Arian and is greatly respected in his neighbourhood as scholar, preacher and an excellent man." Yn 1816, t. 680, ni ddywed adroddiad Wright ddim amgen, fel nad oes angen cloffi rhwng dau feddwl parthed syniadau crefyddol Davis, ond nid oedd yr Ariaeth yn bur oherwydd ceir tueddiadau at Ryddymofyniad a Rhesymoliaeth yn fore. Edrychid ar ddyn fel yn rhydd a rhesymol. Nid oedd pechod wedi distrywio ei reswm na'i ryddid.

Dywedai Morgan Llwyd yn ei gân,—

Hawdd yw torri bwa'r tadau,
Sychu wnaeth ers talm o ddyddiau,

ac y mae'n naturiol gofyn wedi torri " bwa'r tadau " gan wladwyr syml y fro ba fath ar fwa oedd ganddynt hwy yn ei le.

" Nid oedd Ariaeth ddim ond cynnyg i benderfynu perthynas personau'r Drindod ar sylfaen gwahaniaeth ac israddoldeb." Daliai'r Ariad yn ol Gordon, fod" y tri pherson yn fodau hollol ar wahan er fod y Mab (neu'r Gair) a'r Ysbryd Glan yn bod cyn dechreu amser, eto y maent yn ddyledus am eu bodolaeth i Ewyllys Duw, yr hwn yn unig yw'r Duw Goruchaf," a dyna gred Davis a'i wladwyr. Mynnent fod Crist yn rhaghanfodi ond dalient ei fod wedi ei greu pel popeth arall gan Dduw. Nid oedd y gwahaniaeth hwyrach ond bychan ond cadwent feddwl agored gan gerdded ymlaen. Gwrandawsant ar Locke i roi pris ar reswm gan wrthod gwerthu rhyddid meddwl, a chofier ni chondemnient Galfiniaeth na'r Drindod. Dywedid yr oeddynt na cheid mohonynt yn y Beibl. Er fod ereill yn dyrchafu'r Beibl fel maenprawf eu ffydd,

yr oeddynt serch hynny yn ei wneuthur yn ddarostyngedig i'r Credoau. Gyda'r Ariaid Gair Duw oedd y Beibl a dyna esbonia'r Non-Subscription yn Salter's Hall ac nid unrhyw heresi. Yr oeddynt yn credu cymaint a'r lleill yno ond ni fynnent *fformula* o waith dyn. Aent i'r Beibl i'w chwilio am feddwl Duw, a'r canlyniad o hyn ydoedd eu bod yn arloeswyr ym myd Beirniadaeth Feiblaidd ddiweddar.

Wedi'i wau megis drwy'r damcaniaethau hyn fe geir Cariad Duw ; a dyna hoff destun Davis, Dameg y Mab Afradlon a roe iddo gyfle i fynd heibio pob damcaniaeth at galon Duw ei hun, ys dywedai Daniel Ddu :—

" Ei hyfrydlais, yr afradlon—alwai
Yn ol at Dduw tirion ;
Agor dysg ar gariad Ion
Oedd ei gais yn dda gyson.

Hygar ddyn o gawraidd ddoniau—difalch
Oedd Davis yn ddiau :
Er clod a'i hynod fawrhau
Y gwanaf gae ei wenau."

Ni fedrid aros mewn Ariaeth yn hir. *Gorffwysid dan awdurdod yr Ysgruthur gan gadw'r hawl o farn bersonol.* Dyma " *ddualiaeth* " anghyson ac ansefydlog, ac yn y man fe geir y gwladwyr yn dewis eto—yn dewis cadw'r hawl o farn bersonol ac yn symud yr awdurdod ym myd crefydd dan ddylanwad Parker a Martineau o'r Ysgruthur i'r sedd fewnol yn y galon; ac onid yw'r Deon Inge erbyn hyn yn addef fod yr awdurdod yn symud i'r cyfeiriad yna. Yr oedd y gwladwyr yn cerdded ymlaen, a cheir Ysbryd Crist yn dod i'r golwg mewn un digwyddiad syml—.Davis yn anfon ei gofio at y Parch. Eliezer Williams, Ficer Llanbedr ac yntau ar ei wely claf. Y mae'r Ficer torgalon yn gafael yn llaw y gennad gan ddywedyd " Rhowch eich llaw yn llaw Mr. Davis drosof, fel arwydd o undeb mwy eglwysig a gwell, yr hyn a fwynhawn oll yn fuan," ac yng Nghwrdd Coffa Davis Castellhywel nid oes i minnau ond dywedyd fod gobaith crefydd a'r dyfodol yn Ysbryd Iesu a'r Undeb gwir a ddangoswyd ynghalonnau Eliezer Williams o Lanbedr a'r hen Ddavis o Gastellhywel.

Davis a Choleg Caerfyrddin.

YR oll geisiaf fi wneud yw olrhain yn fyr berthynas Davis a hen Goleg Henadurol, Caerfyrddin. Tra dethlir canmlwyddiant marwolaeth ein gwron gellid dathlu mwy na dau canmlwyddiant y Coleg ac nid gormodiaith yw dweyd ei fod mor fyw a llewyrchus heddyw ag y bu mewn unrhyw gyfnod yn ystod ei hanes.

Ar ol myned drwy gwrs rhagbaratoawl mewn gwahanol fannau cafodd Davis ei dderbyn i'r Athrofa yn ol pob tebygolrwydd yn y flwyddyn 1765*. Yr oedd hon ar lawer ystyr yn adeg ddiddorol a phwysig yn hanes y Coleg. Oddiar ei gychwyniad o dan nawdd Samuel Jones—un o'r ddwy fil a gefnodd a'r Eglwys Sefydledig yn 1662—hyd ychydig yn flaenorol i hyn symudid ef o fan i fan i ateb cyfleusdra y rhai ofalai am dano. Yn y flwyddyn 1743 cafodd ei ddwyn am yr ail waith i Gaerfyrddin gan fod y llywydd, y Parch. Evan Davies yn ymfudo yno o Haverfordwest. Ym mhellach cawn fod yng Nghaerfyrddin ar yr un amser ysgol o dan ofal y Parch. Samuel Thomas. Mewn canlyniad unwyd y ddau sefydliad a dewiswyd Mr. Thomas i fod yn Athro o dan Mr. Davies. Yn fuan ar ol hyn drwgdybiwyd Mr. Thomas o gyfeiliornad yn ei syniadau crefyddol. Dywedir ei fod yn gogwyddo o leiaf at Belagiaeth, ac o bosibl at Ariaeth. Am y rheswm hwn gwnaeth y Pwyllgor Annibynol yn Llundain derfynu ei gysylltiad a'r Coleg ac aeth mor bell a sefydlu Athrofa ei hun yr hon ar ol llawer o gyfnewidiadau sydd adnabyddus heddyw fel Coleg Coffadwriaethol Aberhonddu. Nid yw hyn yn golygu fod Annibynwyr Cymru wedi dieithrio oddiwrth Gaerfyrddin. Ni fu yna un tymor yn hanes y Coleg pan nad oedd ganddynt hwy fwy o fyfyrwyr yno na'r un enwad arall.

Yn y flwyddyn 1758 ar ymddiswyddiad y Parch. Evan Davies, dewiswyd Mr. Thomas i fod yn Llywydd a gwahoddwyd y Dr. Jenkin Jenkins i'w gynorthwyo fel Athro. Nid oedd amheuaeth mewn perthynas i syniadau crefyddol yr olaf. Yr oedd yn Ariad agored ac argyhoeddedig. Yr un amser bron ag y derbyniwyd David Davis i mewn fel myfyriwr cafodd y Dr. Jenkins ei osod yn ben ar yr Athrofa. Fe welwn felly fod Mr. Davis wedi myned i'r Coleg ar adeg wir chwyldroadol yn ei hanes. Ar ol symud, byw a bod yn y cyfryw amgylchedd am bedair blynedd nid yw yn syndod ei fod wedi dyfod allan fel Ariad neu rywbeth cyffelyb ei hunan.

Dygir yr achwyniad yn ei erbyn weithiau na wyddom yn iawn beth oedd ei syniadau. Ond y mae yma un peth y medrwn fod

---

* Ni wn i a oes brawf o hyn oherwydd fe'm sicrhawyd gan y diweddar Brifathro W. J. Evans mai 1763—1767 oedd blynyddoedd Davis yn y coleg. Os nad wyf yn methu ni dderbyniwyd neb o'r enw David Davis yn 1765. —Gol.

yn sicr o hono. Gan nad beth oedd yr enw y dewisai gael ei adnabod wrtho, credai yn ddiysgog yn Undod Duw. Ond nid ar athrawiaeth yn gymaint ag ar werth ymarferol crefydd y gosodai y pwys mwyaf. Mewn modd teilwng o ysbryd y Coleg y bu ynddo, gwerthfawrogai wir ryddid a hynny nid yn unig iddo'i hunan ond i eraill hefyd yn ogystal. Ceir prawf digonol o hyn yn y geiriau canlynol ddefnyddir ganddo mewn llythyr at gyfaill. "Yr ydwyf yn cael," meddai, "fy hollol foddloni, y gall fod Dr. Priestley a phersonau o'i blaid ef, yn Gristionogion da a duwiol. Y mae gennyf yr un meddwl am John Calvin a Dr. Crisp, a'i ddisgyblion. Eisteddwn yn llawen yn yr un cymundeb a hwynt, gyda hyfryd obaith o dreulio tragwyddoldeb gyda hwynt ar ol hyn."

Awgrymir gan rai fod cyflwr ysbrydol yr Athrofa yn lled isel tua'r cyfnod y bu Mr. Samuel Thomas a'r Dr. Jenkins yn gofalu am dani. Dywed y Dr. Thomas Rees yn ei lyfr adnabyddus ar Hanes Ymneilltuaeth yng Nghymru fod David Davis wedi colli llawer o'i frwdfrydedd crefyddol yn ystod yr amser y bu yno fel myfyriwr. Ond y mae yn ddigon posibl y cyfyd y dyb hon* oddiar y ffaith fod yno fesur helaeth o ryddid meddyliol ac fod syniadau newyddion yn cael eu derbyn gan yr Athrawon a'u disgyblion. Ceir tystiolaeth eglur ar awdurdod ysgrifenedig Davis ei hun fod ganddo y parch mwyaf at ei gydfyfyrwyr, y Coleg a'r llywydd dysgedig. Nid oes angen ond cyfeirio yn unig at y llinellau gyfansoddwyd ganddo fel Ffarwel i Gaerfyrddin. Dywed am yr olaf fod y "Lle goreu o'n daearen." Eto yn ddiweddarach :—

> "Ffarwel hoff ddysgedig nyth,
> Nid ai di fyth o'm calon."

Nid llai tyner ac awgrymiadol hefyd yw y geiriau ddefnyddia am y llywydd—Dr. Jenkins :—

> "Ber Athraw mwynaidd odiaeth
> A roddi fawr wybodaeth,
> Rhaid in' dros fyth dy adael di
> A myned i alltudiaeth.

> Ni chawn ni hwyr a borau
> Mwy glywed dy ddoeth eiriau
> A draetha'th dafod di fel mel
> Am gyfraith arail moesau.

---

* Cymharer Lloyd Letters tud. lv. a'i bennill ef ei hun,—

> Difyrrwch gwag a dull y dre
> A droes fy enaid gwan o'i lle,
> Mi ais gyda rhwysg fy iengctyd
> Dros dro i adael Duw, yn ynfyd.—Gol.

Ffarwel hyfforddwr union
A mwyn geryddwr tirion,
Ac ni a'th barchwn di fel tad
Tra paro gwa'd y galon."

Nid hawdd fyddai cael teyrnged uwch i unrhyw berson neu wrthrych. Ac yn fwy na'r cyfan bu holl fywyd Davis ei hun a'i waith fel pregethwr, bardd ac ysgolfeistr yn brawf anwadadwy o'r un casgliad. Ond nid yn unig yr oedd ganddo ef y parch at yr Athrofa a'r awdurdodau ond yr oedd gan yr olaf hefyd barch cyffelyb tuag ato yntau. Rhyw ddeng mlynedd wedi iddo adael y lle fel myfyriwr cafodd wahoddiad i ddychwelyd fel Athro. Ni welodd ei ffordd yn glir i gyd-synio. Nid oedd fyth yn fyddar i lais dyledswydd a thebyg fod yr olaf wedi ei argyhoeddi fod angen am ei wasanaeth mewn cyfeiriad gwahanol.

Yn ystod ei yrfa faith ac anrhydeddus y mae Coleg Caerfyrddin wedi meithrin nifer luosog o gymwynaswyr goreu Cymru, ond ymhlith hyd yn oed y rheng flaenaf nid oes yna un y teimla yn falchach o hono neu a barcha yn fwy na Davis Castellhywel.

J. Park Davies.

O Dir Atgof.

PAN oeddwn i ac eraill o'm cyfoedion yn yr ysgol, ddeugain mlynedd yn ol, nid oedd dysgu barddoniaeth Gymraeg ar y program o gwbl, a thrwy hap a damwain yn unig y caem stramp ar ambell i bennill yn yr iaith y'n magwyd ynddi. Cas beth imi oedd "dysgu poitri" yn yr ysgol, ac nid oeddwn fymryn gwaeth na'm cydysgolheigion yn fy niffyg chwaeth yng ngheinion llen y Saeson.

Ond mae ambell i gwrdd llenyddol a gynhelid ym Mhisgah, neu'r Bwlch, neu Stabal Plas Talgarreg yn aros yn felys yn fy nghof, ac yn dwyn yn ol ambell i hen bennill Cymraeg a glywais am y tro cyntaf yn fy mywyd yn cael ei adrodd neu ei ganu, gan wneud apel uniongyrchol at deimlad a phrofiad plant y fro.

Mewn rhyw ffordd answyddogol fel hyn y clywais gyntaf am yr hen Ddavis o Gastellhywel. Er fod ysgol Talgarreg o fewn rhyw ddwy filltir i'r fan y bu'r bardd yn llafurio am flynyddau maith,

nid oedd son am ei enw yn y gwersi llenyddol—nid oedd Davis na neb o'i radd ar y syllabus. Jim Pwllybladur—cof da am ei enw—y monitor yn yr ysgol yn f'amser i—oedd y cyntaf i son wrthyf am enw Davis, ac yn ei lais bachgennaidd ef y daw i'm cof linellau agoriadol "Myfyrdod mewn Mynwent":—

"'Dacw ddolef y ddyhuddgloch
Yn oer ganu cnul y dydd,
'Dacw'r ychen gwar lluddiedig
Yn dod adre i fynd yn rhydd;
A'r llesg arddwr yn ymlusgo
Ar eu hol o glun i glun—
Pawb, gan ado'r byd a'i ffwdan
Ant i orffwys ond fy hun.

Y mae pob gair yn llawn o brofiad crwt o'r wlad: *dyco'r* gloch yn canu; dyco mam yn *nuddo'r* tan tyweirch, ar ol holl *ffwdan* y dydd; a pha mor aml y gwelais was yr Hafod gyda'r hwyr yn tynnu at ben y talar o glun i glun!

"The curfew tolls the knell of parting day,
The lowing herd winds slowly oe'r the lea:"

I ni blant y wlad, a chennym rhyw grap ar Saesneg syml yn unig, 'doedd ond ychydig ystyr, a llai fyth o awyrgylch, i eiriau fel *curfew*, *toll*, *knell*, *lowing*, *lea*, *etc.* Hawdd y gwelaf heddyw paham yr oedd yn gas gennym "ddysgu poitri."

Os iawn 'rwyn cofio, yn siop Teiliwr Green Grove y clywais adrodd y rhelyw o'r Farwnad—yr oedd Tomos, fel llawer eraill o fechgyn deallgar yr ardal yn ei medru bron drwodd, a dychmygaf eto weld llaw chwith yr hen ddilledydd annwyl yn chware yn yr awyr fel yr adroddai gyda hwyl y Cymro sy'n caru'r cywair lleddf:—

Beth yw mawrfri uchel achau,
Rhwysg a mawredd bonedd byd
Ond oferedd sal, di-sylwedd,
Gwynt a gwagedd oll i gyd,
Nas gall estyn un munudyn
Ar eu heinioes hwy na'u hedd,
Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant
A ddibenant yn y bedd.

I'w cymharu a'r ddwy linell olaf hyn, mor fflat a difywyd yw'r gwreiddiol:—

"The paths of glory lead but to the grave!"

Nid rhyfedd i'r Esgob Burgess roddi pum punt i'r hen Ddavis am ei fod wedi curo Gray yn yfflon ! A maddeuwn i'r Dr. Thomas Rees, yn ei lyfr ar hanes Anghydffurfiaeth yng Nghymru, am ddweyd fod " Myfyrdod Davis " yn anghymarol well na " Marwnad Gray." Hyn sydd sicr, ei bod yn anghymarol well i Jim Pwllybladur, Tomos y Teiliwr, a minnau—a channoedd o wladwyr o'n bath ; ac er budd y cyfryw, yn ddiameu, y bu Davis yn llafurio am flynyddau meithion i droi'r gerdd i'r Gymraeg. Ac nid wyf yn credu fod gan fardd yng Ngheredigion heddiw gân yn werth pibed o sog oni ddeil y prawf o'i darllen yn gyhoeddus, ac yn fedrus wrth gwrs, mewn capel neu neuadd yn Sir Aberteifi—a derbyn cymeradwyaeth, nid dyrnaid o athrawon a phregethwyr, ond llond y lle o bobl y wlad,—didwyll wyr y cotiau llwydion ! Dyma'r prawf a ddeil " Myfyrdod " Davis, a hynny am flynyddau lawer i ddod. Mae critics y colegau, lawer ohonynt, wedi ei chollfarnu, am ei diffyg celfyddyd a chynhildeb.

Am danaf fy hun, gwell fuasai gennyf wybod fod pennill o'r eiddof yn aros ar gof rhyw lanc rhwng dau corn yr aradr ar lannau Clettwr, na'i fod yn cael ei barsio a'i analysio yn ysgolion a cholegau Cymru.

Gan mai dweyd fy mhrofiadau personol yw'm hamcan, gwn y maddeuir imi ddwyn ar gof fy nghyffyrddiad nesaf a'r Bardd o Gastellhywel. Pan oeddwn yn yr ysgol yng Ngheinewydd, yr oedd cyd-efrydydd imi yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, ac yr oedd wedi bwrw Sul yn Nhynygwndwn, ac wedi mwynhau yspaid yng nghwmni y diweddar hoffus a diddan Garolan Davies. Yr oedd yr efrydydd hwn, er yn brin ei Saesneg, a phrinnach ei Roeg a'i Ladin, yn drysorfa fyw o farddoniaeth Gymraeg, ac nid ai fyth ar daith heb ychwanegu at ei gyfoeth. Ac wele'r perl a ddug o Dynygwndwn (yr oedd Telyn Dewi yn anhysbys iddo ef—a minnau) :—

Troir ei chain lydain aelwydau—yn erddi
A gwyrddion weirgloddiau,
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau.

Y mae'r englyn wedi aros fyth yn fy nghof—efallai nad yw yn hollol fel yr ysgrifennwyd ef gan ei awdur—nid yw'r Delyn wrth law gennyf, ond hwn yw'r model sydd gennyf bob amser pan geisiaf lunio englyn fy hun, a chredaf nad oes yn ein hiaith, na mewn un iaith arall y gwn i amdani ardderchocach disgrifiad o anghyfanedd-dra na'r cwpled olaf—

A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau.

Efallai mae'r ail oreu yw cwpled o englyn arall o'r gyfres :—

Y ddylluan fudan fydd
Yn gori yn ei magwyrydd.

Er nad yw fy nghyfeillion gwresocaf erioed wedi canmol dim arnaf fel adroddwr cyhoeddus, yr wyf wedi darllen rhannau o waith Davis i gynulleidfaoedd mewn llawer rhan o'r Deheudir, ac anaml y teimlaf nad oes rhyw gyfaredd yn rhedeg drwy galonnau'r mwyaf mater o ffaith o'r dyrfa pan ddechreuo tinc cynghanedd wledig yr hen fardd o ganolbarth Ceredigion ddisgyn ar eu heneidiau. Daw deigryn i lygad y mwyaf caled a digyffro, pan yn son am y "wennol yn y lwfer uwch y tan"; ac am y "clych, taranau a daeargryn" nas medrant :—

Fyth ddihuno'r rhai mewn amdo
Sy yma heno'n drwm eu hun.

Mae eraill wedi cyfieithu'r farwnad yn fwy cywir, ac ysgolheigaidd, a chynnil,—ond at "*use* gwlad," ni ddaw'r un ohonynt byth i gymeryd lle Myfyrion Davis.

Rai blynyddau'n ol euthum yn gyfrifol am ail argraffu'r Myfyrion gyda nodiadau. Maddeued ysbryd yr hen wron imi am wneud cymaint cam a'i waith. Hyderaf y bydd yr argraffiad o "Delyn Dewi" sydd ar ddod o'r wasg yn Aberystwith yn fwy teilwng o'i goffadwriaeth, ac o'r hen ardal a addurnodd yn ei ddydd.

Mae'n debig mai Jacob oedd "style" rhieni'r bardd, ond fod y plant wedi eu bedyddio yn Davis. Mae teulu'r "Jabociaid" yn lluosog o Landysul i Lanbedr : er engraifft, perthyn iddynt y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul ; Mr. T. G. Thomas, Ffatri'r Waun, Talgarreg, ac ysgrifennydd yr atgofion hyn. A oes rhywrai byw a fedr gysylltu'r "Jabociaid" hyn a theulu Davis ? Buasai prawf o'r berthynas hon o fwynhad mawr i lawer ohonom. Os nad oes peth o waed Davis yn rhedeg yng ngwythiennau'r ysgrifennydd, mae ei awen wedi dylanwadu'n ddwfn ar ei galon ; mae wedi cael ei borthi ar yr un golygfeydd, ac wedi treulio llawer awr ar lan Clettwr Fach, fel Davis yntau yn gwrando ar—

"Ddwndwr ber y dwr."

Fel bardd arall, ond dienw, o'r un ardal lonydd a Chymreigaidd, gall ganu :—

Bydd y plwm yn nofio'r tonnau
Fel hwyad las ar lyn

cyn y derfydd dylanwad yr athro, y pregethwr, yr ysgolfeistr, a'r bardd ar drigolion gwledig ardal Castellhywel.

Nid wyf wedi gwneud ond dangos ol ei awen ar un o blant y fro. Yma heddiw, yn "y lle bum yn gware gynt,
Mae dynion na'm hadwaenynt,"

ond wrth adrodd yn syml fy nghofion personol i, diameu gennyf fy mod yn dweyd profiad cant a mwy o blant bro fy mebyd. Mae dydd newydd wedi gwawrio ar Gymru a Chymraeg, ac erbyn heddiw mae acenion melys Myfyrdod yr hen fardd yn swnio rhwng muriau ysgolion y wlad ; a medr plant yr hen ardal droi i'w glynnoedd gwledig, gan ddywedyd ynddynt eu hunain,—

"Yma hefyd y magwyd cewri."

SARNICOL.

Atgofion Henafgwr.

YN yr hwyr, pryd bynnag y buasai nhad David Lewis Evans (Bu farw 1902 yn 90 mlwydd oed) wedi bod yn son am 'slawer dydd a phersonau yr oedd wedi weld ac adnabod, yn ddieithriad ysgrifennwn sylwedd yr atgofion yn ei eiriau ef ei hun. Dyma'r pryd y clywais ef yn son am Ddavis, Castellhywel ; Rice Rees ; Iolo Morganwg ; Daniel Ddu, Tegid a Khilsby Jones hen gydefrydydd iddo yn y Coleg heb law ereill nad ynt ddim amgen nag enwau i'r do bresennol.

Bu Davis yn yr ysgol yn Llanybyther dan David Jones, myfyriwr o Goleg Caerfyrddin a gyhoeddodd yng Nghaerfyrddin 1765 gyfieithiad Cymraeg o "Eucharista" Grotius. Dywedai nhad ei fod wedi bod yn Rhydychen ; oherwydd dymunai'i fam iddo fod yn offeiriad, ond gwrthododd, aeth i'r India gan ddychwelyd i gadw ysgol yn Llanybyther a gorwedd ym mynwent Eglwys Llanwenog. (Claddwyd Rhag. 14. 1797).

Priodolai Davis rai o'i argraffiadau crefyddol bore i Philip Pugh (1679—1768) ; gwel " Ffarwel i'r Byd a'r Eglwys " :—

" Taer y galwai Meistir Pugh
Ienctyd ffol i geisio Duw :
Rhai o'i eiriau aeth fel hoelion
Gyda bendith at fy nghalon."

Yr oedd Ficer Eliezer Williams, Llanbedr (1754—1820) ar ei wely angeu ac iddo ef danfonodd Davis gyfarchiad tyner. Gan gydio'n llaw'r gennad dywedodd y ficer ar farw, " Rhowch eich llaw yn llaw Mr. Davis drosof, fel arwydd o undeb mwy eglwysig a gwell, yr hyn a fwynhawn oll yn fuan." Plethodd fy nhad y digwyddiad hwn yn bregeth a draddododd o hen bulpud Martineau yn Eglwys Hope Street, Lerpwl.

Gyda llaw yn angladd Davis yn Llanwenog y gwelodd nhad Daniel Ddu gyntaf ac yr oedd y bardd yn uwch o'i ysgwyddau nag odid neb yno.

Ychydig wythnosau cyn ei farw, gofynnodd nhad am ei gopi o Delyn Dewi (1824) ac yr oedd ol trafod arno. Wrth imi ei estyn iddo, dywedodd " Nawr am bensil, yr wyf am nodi enwau pob un o'r tanysgrifwyr a welais neu a adwaenwn."

Am dipyn gweithiodd yn dawel wrth ei dasg ac yna gan edrych i fyny a gwên ar ei wyneb dywedodd, " Bydd yn waith haws i nodi'r rhai nad adwaenwn." A hynyna cofier mewn rhestr yn cynnwys 973 o danysgrifwyr.

Yna ychwanegodd, " Cofia machgen i, i mi weld a chlywed Davis. Cymerodd mam fi gyda hi unwaith pan gerddasom i Gastellhywel un hwyrddydd haf. Eisteddai Davis yn y gegin gan ddysgu Groeg i nifer o lanciau. Ni wyddwn i ba iaith ydoedd ar y pryd ond cofiaf fod yr hen wr yn adrodd o flaen y bechgyn gan ofyn iddynt ei adrodd ar ei ol. Cofiaf yn dda i un ohonynt wneuthur camsyniad—credaf mai mewn ynganu ydoedd—a Davis yn dwyn ei ffon braff i lawr ar fys bawd troed y troseddwr. Ar ddiwedd y wers cai'r bechgyn fara ceirch a chefais innau gyfran, a dywedai mam " Gwrando ! " a chlywsom yr hen fardd yn adrodd :—

" My fair I find in mind and mien
And honor a Diana.
By George, I'd scorn to take his queen
And losing fair Eliza."

Cofiaf drwy gydol fy oes hir y nos honno a mam yn dywedyd wrthof ar y ffordd adref 'Cofia di, yr wyt wedi gweld a chlywed Mr. Davis, a'r Sul nesaf pan ddaw i dê cei weled y gwr mawr a da—Iolo.' "

Mynych y dywedodd fy nhad wrthof "Pryd bynnag y cei gyfle cywira gamargraff un llythyren yn "Nhelyn Dewi" (td. 149) *F*enton ac nid *T*enton fel y'i argreffir. Plant yr oedd Charles a Samuel y sonir am danynt i Richard Fenton, Hanesydd Pemfro—y cyhoeddwyd ei hanes Sir gan Longman Rees a'i gwmni o Lundain, a thrwy Rees ei hun yr anfonodd Fenton ei feibion i ysgol Davis."

Bu gwreiddiol y llythyrau a ganlyn yn fy llaw ychydig flynyddoedd yn ol. Rhoddant olygiadau Davis ar addysg i ryw fesur bach.

LLWYN, *7th*, *Jany*, 1825.

DEAR SIR.

I wrote a few lines for you in a letter to my son Timothy, at Neath, last week. But not knowing whether you saw him, I think it best to acquaint you that your intended pupils think of personally waiting upon you in a fortnight or three weeks.

Let all particulars be minutely ascertained, *e.g*,—whether table-beer is expected and demanded at all hours, or only at dinner; this may prevent disputes and disappointments.

It is to be wished that they be habituated to make no Excursions from school or lodgings without your leave.

The hour of sleeping should be fixed and settled.

Idle (prating ?) should be guarded against, as I hope you will find them full employment by stated and occasional lectures. Write your intended regulations to their father, Mr. John Evans, of Castellhywel by one of the next posts.

I remain, Yours sincerely,

DA. DAVIS.

My wife joins me in love and respects to you—

Adressed to the Rev. John James, of Clydach, near Neath, Glam.

Tad Ben Evans, Cyfreithiwr, a'r Parch. David Evans, B.A. (1805—85) ydoedd John Evans; a'i wraig oedd Anne (1781—1816), merch Da. Davis.

Tri mis yn ddiweddarach yr ysgrifenwyd y llythyr hwn :—

LLWYN, 30*th April*, 1825.

DEAR SIR.

I hope you will succeed in engaging the lads to learn as well and as much as they can; that their improvement may be apparent to themselves, to their Tutor and unto all their schoolfellows. I am incapable of enlarging, and therefore conclude by wishing much success to you and all your pupils. DA. DAVIS.

Suppose they were to construe a chapter in the Greek Testament alternately with a lesson in Homer. I have a Grotius which would be highly proper and useful to them.

Mr. Sam. Morgan has proposed furthering the Bristol Fund, when it arrives to me and my neighbours.

Adressed to Rev. John James, Clydach.

Y mae'n ddydd Nadolig, a cheir yr hen athraw yn ysgrifennu un llythyr yn rhagor at ei hen gyfaill, John James—y tro hwn yn gwneuthur "tro da" ag athraw o Lancrwys (Dr. Davies, Ffrwd-yfâl wedi hyn).

LLWYN, 25*th Dec.*, 1825.

DEAR FRIEND.

William Davies, a young man going on the 21st year of his age, from the Parish of Llanycrwys is desirous of being admitted into the Carmarthen Academy, if possible before the close of next year. I advise him by all means to spend as many quarters as he possibly can under your classical Instructions, preparatory thereto.

Being a *none parelle* in patience, diligence and unwearied application, I am of opinion he may by continued attention, directed by your incessant exertions, make a great progress in Latin and Greek, in two or 3 months, as common geniuses make in so many quarters, if not year; he being an uncommon phenomena of application by day and night.

Having partly studied Virgil and the Greek Testament he last August, applied to mathematics; in two months he became master of Bonicastle's "Mensuration" and Norris' "Navigation." I look upon him as a most enviable subject for your unwearied instruction, that may acquire fame to your school, and be a very useful Assistant, and example to your pupils, if I can bring you anyhow to the relation of tutor and pupil. He has a flourishing school of 73 scholars, whom he teaches much in the Lancasterian mode, without ever hearing of it. He is much inclined to become your pupil, but cannot pay your stated price. I say he must stretch to pay for lodgings, and his talents, I am confident, may raise your school to 80 or 100 scholars in a few months.

I must give over, let him hear the lowest terms on which you will admit him for two or three months by way of experiment.

I am his and your well-wisher, hoping you may be of mutual advantage to each other. And remain your sincere friend and humble servant.

DA. DAVIES.

I will be much obliged to you for your terms of lodgings and washing. Please to direct to me as follows—William Davies, Schoolmaster, Ffaldybrenin, Llanycrwys, Nr. Lampeter, Cardiganshire.

WM. DAVIES.

Please to give our united love and respects to the family of Gelligron.

BENJ. DAVIES.

Addressed to Rev. John James, Clydach, Nr. Swansea, Postpaid viii. d.
* Take in—on fo. 15.

Y mae'n werth cofio—ni chlywodd y do bresennol am hynny—mai Davis ar y 25 o Awst 1791 mewn cyfarfod o weinidogion y tri enwad yn Llechryd a gynhygiodd annerch i Dr. Priestley ar y terfysg bythgofiadwy ym Mirmingham. Fe gariwyd y penderfyniad yn unfrydol ond nid heb beth gwrthwynebiad oddiwrth weinidog Annibynnol poblogaidd. Nid anniddorol hefyd ydyw ateb Dr. Priestley :—

LONDON, *Oct.* 3, 1791.

REV. SIR.

A variety of engagements and absence from London prevented my noticing your very obliging letter so soon as I should otherwise have done. The first opportunity that you have, I beg you would assure the ministers in whose name you wrote to me ,that I receive the greatest satisfaction from their consolatory letter, and that I shall be far from considering my sufferings as a cause of lamentation, if they be the means, as I trust they will, of leading the Dissenters of different persuasions to feel for one another as brethren and to value as they might the great principles that are common to us all and these we shall find are of infinitely more importance than all those about which we differ. Those great doctrines that lead us to acknowledge the providence of God here and to look into futurity, so as to enable us to bear as we ought both the good and the evil of this life we all agree in, as well as in acknowledging but one lawgiver in the Church, Jesus Christ, and submission in all events to his authority in opposition to everything human.

We have much to fear from the rising spirit of bigotry encouraged by the clergy and I fear the Court too ; but with Christian prudence and fortitude we shall certainly overcome.

With very respectful compliments to your brethren and yourself,

I am Rev. Sir,

Your very Humble Servant,

J. PRIESTLEY.

REV. J. REES,
Gelligron, Nr. Neath.

c.f. Christian Reformer.

* * *

Ychydig amser yn ol gofynnwyd imi a wyddwn pryd y pregethodd Davis ei bregeth olaf mewn unrhyw gyfarfod o Undodiaid Deheu Cymru*. O'm blaen mae Cyfrol mewn llawysgrif lle y cofnodir o ddyddiaduron, llythyron, adroddiadau argraffedig yn y Monthly Repository, y Christian Reformer, atgofion fy nhad a ffynonhellau ereill gyfarfodydd chwarterol ac ereill o 1802 i 1875, gydag enwau y pregethwyr a'r rhai fu'n gwasanaethu, testunau'r Pwnc a materion ereill. Yno caf mai mewn Cyfarfod a gynhaliwyd yng "Nghapel Undodaidd Caerfyrddin" o "Gymdeithas Lyfrau Undodiaid De Cymru" ar Orffennaf 8, 1817 y pregethodd. Yr oedd yna ddwy sasiwn y dydd yna (ac un y noson cynt hefyd) ; yn y bore, gweddiodd R. Aubrey, Abertawe a phregethodd Dr. Rees, Llundain a John James, Penybontarogwr. Yn y prynhawn gweddiodd Dr. Rees a phregethodd R. Aubrey a "D. Davis, Llwynrhydowen oddiar Phil. iii. 20—Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd ; o'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr,

---

* Hyd y gwn i ni phregethodd Davis ond dwywaith i'r Gymdeithas Undodaidd—yng Ngellionnen 1808 a Chaerfyrddin 1817. —GOL.

yr Arglwydd Iesu Grist." Nid oedd dim llai nag ugain gweinidog yn bresennol, mewn adeilad, *shell* yr hwn a erys eto—gweithdy'r saer maen yn yr Heol Dywyll, Caerfyrddin. Dyma'i bregeth olaf y ceir cofnod am dani. (Y mae G.E.E. yn methu ond odid yma oherwydd cymysgu ohono y Gymdeithas Undodaidd a'r Gymdeithas Bresbyteraidd ac fe geir cofnod, ond nid yw'r "Delyn" wrth law gennyf, ar dudalen xii, onid wyf yn methu, iddo bregethu'i bregeth olaf yng Nghilgwyn 1825, oddiwrth Gen. v. 22, "Ac Enoch a rodiodd gyda Duw." GOL.).

Mewn Cwrdd Chwarter o weinidogion Presbyteraidd yn Llwynrhydowen ar Orffennaf 23, 1823,—"Gollyngodd David Davis gweinidog y gynulleidfa am yn agos i 50 mlynedd y gynulleidfa trwy weddi."

Gadawer i ni ddarlunio'r olygfa fel y'i ceir yn y Monthly Repository, "pedwar gweinidog ar ddeg yn bresennol, y capel yn orlawn, cannoedd o'r tu allan, y pregethwyr yn siarad ger ffenestr agored, a'r hen weinidog yn eu bendithio!"

Dyma'r tro ond odid yr adroddai nhad am dano pan dynnid Davis yn ei gadair i'r Capel gan ei fab Benjamin a fu farw yn Philadelphia 1848. Yr oedd yn ddiwrnod gwlyb ac ysgwyddau'r hen fardd dan do, fel pan gyfarfu ag offeiriad Ciliau un diwrnod a Daniel Ddu yn troi'r digwyddiad ar gân :—

"Gwrandewch y Prydydd rhywiog
A'r Athraw mawr godidog,
Mae ysgub wellt yn wael ei llun
Ar ysgwydd dyn mor enwog.

Ateb—

"Na feia, gar, mor atgas,
Mae'r glaw yn curo'n ddiflas,
A gwellt yn do, fy nghyfaill, sydd
Ar wal o bridd yn addas.

Terfynaf gyda llinellau David Ivon Jones, ysgrifennydd New Street Meeting House, corff yr hwn a orwedd ym Moscow heb fod nepell oddiwrth eiddo Lenin—llinellau a adroddodd ar derfyn anerchiad ar Ddavis yn New Street ar fore Sul :—

"Diffael ei ffydd, a'i gredo'n rhydd
Awenydd da ei nyddiad :
Hyfforddwr llawn o ddwyfol ddawn
Arddelydd iawn addysgiad."

P.S.—Let me not sail under false colours—the Editor upon whom in his student days at Aberystwyth I have inflicted many sermons has improved my English into the vernacular. I thank him.—G.E.E.

CASTELLHYWEL.

I.

Yn ddolennog rhwng gwyrdd lannau
Y cyniwair Cletwr Fach ;
I ororau'r Meini Gwynion
Yn ei nwyf mae'n canu'n iach.
Llon ei hwyl rhwng llwyni helig,
Dawnsia beunydd ar ei hynt,
Fyth mor ieuanc ag yn nyddiau
Hywel a'i farchogion gynt.

II.

Fu'r awenol wr o Wynedd
Mewn gorhoffedd ger ei thon
Wen oerewyn ? Fu ei delyn
Gynt yn adsain cerddi hon ?
Pery nwyfiant awen Hywel
Wedi'r oesoedd gwyllt eu bar,
Ond dros olion gwelw ei gastell
Wele'r og yn chwalu'r ar.

III.

Telyn Dewi a glybuwyd
Yma'n canu'n felys-glaf
Hyd y glannau diog-lonydd
Pan lesmeiriai hwyr o haf.
Ei bêr gerdd hyd lwybrau gwyrddion
Gynt a grwydrai fryn a gwaun,
Rhwng aur eithin Bwlch y Fadfa
A than wyngyll Allt y Maen.
Ar oer arffed dae'r i orffwys
Dewi a ddodwys bwys ei ben ;
Ond mae Cletwr Fach yn murmur
Cerdd dros lawer carreg wen.
Dawn a dwylo diwnai delyn
Sydd yn llonydd yn y gro ;
Hithau'r delyn sydd ar helig
Llwyd ei enedigol fro.
Gwae dy galon, Geredigion,
Pan nad erys un o ach
Beunydd ieuanc bonedd awen
It' yn Nyffryn Cletwr Fach.

SARNICOL.

ENW DA.

Can mlynedd mewn bedd ! Mwyn yw bod—o rif
Y rhai na chly'r beddrod
Eu *henwau'n* ei fynwes isod ;
Er rhoddi ein Dewi i dywod,
Ni huna ei *enw* anhynod ;
Enw'r da, er i'r yrfa ddarfod,—i gof
O'i gafell sy'n dyfod !

Can mlynedd mewn bedd ! Gwyn yw byd—y sawl
Sy a'i *enw'n* dwyn hyfryd
Aroglau o gyrrau'r gweryd ;
Ninnau'n ei alw'n anwylyd,
A maddeu holl feiau'i fywyd ;
O angof i'n cof y cyfyd,—a gwych
Yw gwedd ei ddychwelyd !

CLEDLYN.

Yr ydym yn ddyledus i Mr. George Rees, Golygydd y "Welsh Gazette," Aberystwyth, am ei garedigrwydd yn rhoddi benthyg y Block a argreffir ar y dudalen gyntaf o'r Rhifyn hwn.

Y mae Cadair a fu yn eiddo i'r Parch. David Davis, Castellhywel, yn 3, Clifton Terrace, Llandysul. Fe'i dangosir gyda pharodrwydd i unrhyw un a fo'n dymuno ei gweld. Y mae'r bwrdd a'r llestr cymundeb a ddefnyddiai yng Ngellifaharen.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF SUMMER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1900 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.